

Llywodraeth Cymru

**Astudiaeth Rhanbarthau ac
Ardaloedd Gwledig y FfDC**

Adroddiad Astudiaeth – Data a
Diffiniadau

Cyhoeddi | 15 Mawrth 2019

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau
a gofynion penodol ein cleient.

Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti
ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno ac
nid ymgymeir â chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.

Rhif y gwaith 264350-00

Ove Arup & Partners Ltd
4 Pierhead Street
Glannau'r Brifddinas
Caerdydd CF10 4QP
Y Deyrnas Unedig
www.arup.com



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARUP

Cynnwys

	Tudalen
1 Cyflwyniad	1
1.1 Cyd-destun y FfDC	1
1.2 Diben yr Astudiaeth hon a'r Adroddiadau	4
1.3 Strwythur yr Adroddiad hwn	6
2 Casglu Data	8
2.1 Gwybodaeth Sylfaenol	8
2.2 Methodoleg	10
2.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	16
2.4 SWOT a data sy'n cefnogi datblygu polisïau	35
3 Diffinio 'Mawr'	39
3.1 Safleoedd Cyflogaeth	39
3.2 Safleoedd Manwerthu / Masnachol	43
3.3 Gorsafoedd Cynhyrchu	48
3.4 Cynlluniau Trafnidiaeth	48
4 Diffinio a Mapio Aneddiadau Allweddol	49
4.1 Strategaethau Gofodol CDLlau	49
4.2 Poblogaeth	51
4.3 Yr Ymagwedd Arfaethedig	52
5 Diffinio Ardaloedd Gwledig	56
6 Rhanbarthau Cydffiniol yn Lloegr	67
6.1 Materion trawsffiniol â blaenoriaeth	67
6.2 Sbardunwyr allweddol	69
6.3 Ystyriaethau allweddol	80
7 Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	81
8 Crynodeb	84
8.1 Trosolwg	84
8.2 Canlyniadau	85
8.3 Diffiniadau	85
8.4 Aneddiadau Allweddol	86
8.5 Ardaloedd Gwledig	87
8.6 Rhanbarthau Cydffiniol yn Lloegr	87
8.7 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	88

Atodiadau

Appendix A

Cais am Wybodaeth i ACLlau

Appendix B

Tablau Data a Mapiau

1 Cyflwyniad

1.1 Cyd-destun y FfDC

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar gyfer Cymru. Bydd y FfDC yn gynllun datblygu ar gyfer Cymru gyfan, ac yn disodli Cynllun Gofodol Cymru pan gaiff ei gyhoeddi ym mis Medi 2020.

Bydd yn amlinellu polisiâu cynllunio cenedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ac yn mynegi amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir Llywodraeth Cymru yn ofodol.

Bydd y FfDC yn rhan o'r cynllun statudol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio a bydd yn helpu i benderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn ystod yr haf 2018¹, mae Llywodraeth Cymru bellach wrthi'n datblygu'r FfDC Drafft ac yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

Fel y nodir yn yr Opsiwn a Ffefrir, bwriedir i'r FfDC gynnwys polisiâu cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y rhanbarthau diffiniedig. Bydd y tri rhanbarth yn cwmpasu Gogledd, Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru, fel y dangosir yn Ffigur 1. Mae hyn yn adlewyrchu'r tri rhanbarth a nodwyd gan Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi.

Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi'u penodi ar gyfer pob rhanbarth ac maent wedi dechrau ar waith i ddatblygu ymagwedd Llywodraeth Cymru at wella gweithio a chyflawni'n rhanbarthol.

Mae'r Ddeddf Cynllunio yn hwyluso'r ymagwedd hon ac yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn rhanbarthol.


O safbwynt rhanbarthol, mae rôl y FfDC yn cynnwys cefnogi cyflawni polisiâu rhanbarthol Llywodraeth Cymru a chynllunio / cydweithredu strategol gwell rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau) Cymru.

Dangosir y rhaglen ar gyfer y FfDC yn Ffigur 1 isod, sy'n cynnwys:


- Ymgynghoriad ar y FfDC Drafft y bwriedir ei gynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019; ac
- Ystyried y Drafft gan y Cynulliad rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020.

¹ https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-y-prif-faterion-opsiynau-ar-opsiwn-a-ffefrir?_ga=2.156429563.116188421.1557304865-613136503.1479996126

Ffigur 2 Rhanbarthau'r FfDC



Ffigur 3 Llinell Amser y FfDC



1.2 Diben yr Astudiaeth hon a'r Adroddiadau

Dyma amcanion yr Astudiaeth Ymchwil Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig hon:

- a) Datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob rhanbarth FfDC sy'n cefnogi datblygu polisiau'r FfDC, a defnyddio hyn i amlygu'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisiau'r FfDC ganolbwyntio arnynt;
- b) Amlygu ardaloedd gwledig cyffredinol a datblygu sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi datblygu polisiau'r FfDC, a defnyddio hyn i amlygu'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisiau'r FfDC ganolbwyntio arnynt; a
- c) Chynnwys rhanddeiliaid yn 'a' a 'b'.

Mae dwy ran i'r gwaith ymchwil hwn²:

1. Rhan 1 – Dadansoddiad Llinell Sylfaen a SWOT Rhanbarthol³ i Gefnogi Datblygu Polisiau'r FfDC; a
2. Rhan 2 – Amlygu Ardaloedd Gwledig Cyffredinol a Dadansoddiad SWOT i Gefnogi Datblygu Polisiau'r FfDC.

Mae'r ymchwil yn cwmpasu Cymru gyfan ac ystod eang o feysydd polisi posibl.

Gwaith ymchwil lefel uchel yw hwn ac ni fwriedir iddo ddarparu tystiolaeth a chefnogi datblygu polisi ar gyfer pob lefel.

Mae haenau cynllunio rhanbarthol a lleol yn gyfrifol am ddatblygu tystiolaeth a pholisiau sy'n briodol i'w lefel nhw.

Fodd bynnag, bydd y FfDC yn cyfrannu at gefnogi cynllunio rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn awyddus, trwy'r gwaith ymchwil hwn, i ddeall yr hyn y gall y system gynllunio ei wneud trwy'r FfDC i gefnogi ardaloedd gwledig.

I helpu i gyflawni amcanion yr astudiaeth, mae Arup wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau sy'n mynd i'r afael â gofynion yr astudiaeth.

Crynhwir y rhain yn Nhabl 1 isod:

² Darparwyd gofynion yr astudiaeth i Arup mewn dogfen Manyleb. Llywiodd y ddogfen honno gynnig Arup ar gyfer yr ymchwil, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018.

³ Ni fwriedir i ofynion datblygu polisiau FfDC a Dadansoddiad SWOT y gwaith hwn amlygu a mynd i'r afael â phob mater ar bob lefel. Yn hytrach, bwriedir iddynt gefnogi'r broses o ddatblygu polisi cynllunio cenedlaethol lefel uchel a darparu cyfeiriad ar gyfer cynllunio rhanbarthol.

Tabl 1 Allbynnau'r Astudiaeth

Allbwn	Adroddiadau	Cynnwys
Trosolwg o'r Astudiaeth	1. Trosolwg o'r Astudiaeth	a) Cyd-destun y FfDC b) Diben yr astudiaeth a'r adroddiadau c) Cyfraniad Arup
Adroddiad Astudiaeth – Data a Diffiniadau	2. Adroddiad Data a Diffiniadau	ch) Cyflwyniad, gan gynnwys y cyd-destun, diben yr astudiaeth a'r adroddiadau, a'r strwythur d) Casglu data, gan gynnwys ymagwedd, dull, cydweithio, canfyddiadau, adborth gan randdeiliaid, sut y defnyddiwyd data yn yr ymchwil gyda thablau a mapiau dd) Diffinio 'Mawr' – gan gynnwys safleoedd cyflogaeth, safleoedd manwerthu/masnachol, gorsafoedd cynhyrchu a chynlluniau trafnidiaeth e) Diffinio a mapio aneddiadau allweddol f) Rhanbarthau cydffiniol yn Lloegr ff) Diffinio Ardaloedd Gwledig g) Ystyried y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ng) Crynodeb o'r Astudiaeth
Adroddiadau Gweithdy	3. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – Gogledd Cymru 4. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – Canolbarth a De-orllewin Cymru 5. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – De-ddwyrain Cymru 6. Adroddiad Gweithdy Gwledig – Gogledd Cymru 7. Adroddiad Gweithdy Gwledig – Canolbarth a De-orllewin Cymru 8. Adroddiad Gweithdy Gwledig – De-ddwyrain Cymru	h) Yr ymagwedd at gynnwys rhanddeiliaid i) Trefniadau a mynychwyr y gweithdai l) Canlyniadau gweithgareddau ll) Crynodeb o'r adborth gan randdeiliaid
Adroddiadau SWOT⁴	9. Adroddiad SWOT Rhanbarthol 10. Adroddiad SWOT Gwledig	m) Yr ymagwedd at SWOT n) Adborth gan randdeiliaid o) Dilysu data p) Dadansoddiad SWOT ph) Rôl y FfDC wrth gefnogi a mynd i'r afael â SWOT, gan ystyried

⁴ Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT)

Allbwn	Adroddiadau	Cynnwys
		cydberthnasau a ffyrdd o weithio
		r) Crynodeb o'r hyn y dylai'r FfDC ei wneud i gefnogi / mynd i'r afael â SWOT mewn rhanbarthau ac ardaloedd gwledig

Fel cyfres o ddogfennau, dylid darllen yr Adroddiad Data a Diffiniadau hwn ochr yn ochr â'r Adroddiadau Gweithdy a SWOT cysylltiedig i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o ganlyniadau a chanfyddiadau'r ymchwil.

Mae'r holl allbynnau sy'n ffurfio'r gyfres o adroddiadau ar gyfer yr astudiaeth yn darparu cyd-destun a phwrpas ac yn croesgyfeirio i'w gilydd fel y bo'n briodol.

Mae adroddiadau'r astudiaeth wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar wahân ac ochr yn ochr â'i gilydd⁵.

1.3 Strwythur yr Adroddiad hwn

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro o amgylch y themâu a amlinellir uchod ac ystyrir pob un yn ei thro, fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn rhoi crynodeb o'r ymarfer Casglu Data;
- Mae Adran 3 yn rhoi canlyniadau'r astudiaeth mewn perthynas â diffinio categorïau allweddol at ddiben y FfDC;
- Mae Adran 4 yn ystyried yr ymagwedd at ddiffinio aneddiadau allweddol;
- Mae Adran 5 yn cyflwyno'r ymagwedd at ddiffinio Ardaloedd Gwledig;
- Mae Adran 6 yn ystyried y rhanbarthau a'r awdurdodau lleol cydffiniol yn Lloegr, gan ganolbwyntio ar gydberthnasau / materion trawsffiniol / cyfleoedd; ac
- Mae Adran 7 yn ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)⁶;
- Mae Adran 8 yn rhoi crynodeb o'r Astudiaeth.

Paratowyd yr adroddiad hwn i ddwyn ynghyd y data a gasglwyd ac i ddadansoddi'r astudiaeth mewn perthynas â'r themâu canlynol:

1. Y diffiniad o 'fawr' ar gyfer y categorïau canlynol:

- a) Safleoedd Cyflogaeth (presennol / wedi'u dyrannu);
- b) Safleoedd Manwerthu / Masnachol (presennol / wedi'u dyrannu);

⁵ <https://gweddill.gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy>

⁶ <https://gweddill.gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

- c) Gorsafoedd Cynhyrchu (presennol / wedi'u dyrannu);
 - ch) Cynlluniau Trafnidiaeth (gan gynnwys Ffyrdd, Rheilffyrdd, Porthladdoedd a Harbyrau, a Meysydd Awyr arfaethedig);
2. Yr ymagwedd at ddiffinio / mapio aneddiadau allweddol;
 3. Yr ymagwedd at ranbarthau cydffiniol yn Lloegr a'r ystyriaeth a roddwyd iddynt; a'r
 4. Ymagwedd at ddiffinio Ardaloedd Gwledig.

Trafodir pob un o'r themâu hyn ymhellach mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn.

2 Casglu Data

2.1 Gwybodaeth Sylfaenol

Roedd Manyleb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr astudiaeth hon yn gofyn am goladu a mapio swm mawr o ddata, yn berthnasol i wahanol feysydd a themâu polisi.

Dyma grynodedb o'r data yr oedd angen ei gasglu, lle'r oedd yn bosibl ac yn ymarferol, i helpu i ddarparu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer y FfDC:

- Cyfnod y cynllun
- Cyfanswm y ddarpariaeth dai ar gyfer cyfnod y cynllun
- Nifer y tai a gwblhawyd hyd yma ar gyfer cyfnod y cynllun (safleoedd wedi'u dyrannu a heb eu dyrannu)
- Nifer yr unedau sy'n weddill ar safleoedd tai wedi'u dyrannu
- Nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd hyd yma ar gyfer cyfnod y cynllun (safleoedd wedi'u dyrannu a heb eu dyrannu)
- Safleoedd tai wedi'u dyrannu sy'n cynnwys 1000+ o unedau
- Safleoedd tai heb eu dyrannu sy'n cynnwys 1000+ o unedau a ganiatawyd yn ystod cyfnod y cynllun
- Aneddiadau i gael mwy na 5000+ o anheddau trwy un safle neu gyfuniad o safleoedd (wedi'u dyrannu ac wedi'u caniatáu yn ystod cyfnod y cynllun)
- Safleoedd cyflogaeth mawr presennol
- Safleoedd cyflogaeth mawr wedi'u dyrannu
- Nifer y swyddi i'w darparu yn ystod cyfnod y cynllun
- Safleoedd manwerthu/masnachol mawr presennol
- Safleoedd manwerthu/masnachol mawr wedi'u dyrannu
- Prif anheddiad/aneddiadau yn yr hierarchaeth aneddiadau
- Lletemau glas neu ddynodiadau tebyg
- Dynodiadau amgylcheddol allweddol
- Gofyniad mwynau ar gyfer cyfnod y cynllun
- Safleoedd mwynau presennol
- Safleoedd mwynau wedi'u dyrannu
- Gofyniad gwastraff ar gyfer cyfnod y cynllun
- Safleoedd gwastraff presennol
- Safleoedd gwastraff wedi'u dyrannu
- Targedau ynni adnewyddadwy
- Seilwaith/safleoedd/ardaloedd cynhyrchu ynni mawr presennol
- Seilwaith/safleoedd/ardaloedd cynhyrchu ynni mawr wedi'u dyrannu
- Ardaloedd yr amlygwyd y gallent fod yn addas ar gyfer ynni adnewyddadwy mewn Asesiadau Ynni Adnewyddadwy
- Cynlluniau trafnidiaeth mawr arfaethedig

- Seilwaith teithio llesol

Ceisiodd Llywodraeth Cymru amlygu seilwaith rhanbarthol trwy'r gwaith ymchwil hwn hefyd (e.e. ysbytai mawr, cyfleusterau iechyd, Prifysgolion a chyfleusterau addysg uwch, seilwaith trafniadaeth, ardaloedd sy'n agored i lifogydd, seilwaith digidol ac Ardaloedd Menter).

Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i archwilio a deall unrhyw brosiectau a chynigion posibl sy'n berthnasol i'r FfDC (e.e. prosiectau a chynigion gofodol sy'n cael eu cynllunio neu eu symud ymlaen gan rhanddeiliaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru, dinas-ranbarthau, cyrff cyfleustodau a darparwyr gwasanaeth).

2.2 Methodoleg

2.2.1 Ymagwedd

Er mwyn cytuno ar ymagwedd gyffredinol tuag at gasglu data, amlygu ffynonellau data posibl a thrafod a chytuno ar sut y byddai data'n cael ei fformatio / ei gyflwyno'n ofodol, cynhyrchodd a chyhoeddodd Arup 'Ddull Ffynonellau ac Allbynnau Arfaethedig' yn gynnar yn ystod rhaglen yr astudiaeth. Llywiodd hwn yr angen i geisio data gan rhanddeiliaid, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLLau), a'r trefniadau ar gyfer gwneud hynny.

Anfonodd Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru llythyr cyflwyno at Bennaeth pob ACLl yng Nghymru ar 4 Hydref 2018. Roedd y llythyr hwnnw'n rhoi gwybod bod Arup wedi'i benodi ac yn dweud y byddai'r ACLlau yn cael cais am wybodaeth benodol i helpu i gwblhau ymarfer casglu data'r astudiaeth. Cysylltodd Llywodraeth Cymru â Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) a Cadw hefyd, fel y bo'n briodol, trwy ohebiaeth.

Ar ôl cynhyrchu'r 'Dull Ffynonellau ac Allbynnau Arfaethedig', cynhaliwyd gweithdy ar 17 Hydref 2018 gyda chynrychiolwyr o amryw adrannau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: Cynllunio; Datblygu Economaidd; Ystadegau; GIS; Tai; Seilwaith; Mwynau a Gwastraff; ac Ynni.

Diben y gweithdy oedd esbonio'r ffynonellau data a'r allbynnau arfaethedig, a chadarnhau'n gynnar yn ystod yr astudiaeth a oedd adrannau eraill Llywodraeth Cymru eisoes yn dal data neu'n ceisio casglu data yn eu hadrannau. Caniataodd y broses hon i Arup geisio cytundeb ar y ffynonellau data mwyaf tebygol ar gyfer y data allweddol, a thrafod a chytuno ar y ffordd orau o gyflwyno data'n ofodol.

Yn gyntaf, rhoddodd Arup flaenoriaeth i gasglu data ffynhonnell agored sydd ar gael i'r cyhoedd. Gwnaed hyn trwy adolygiad desg.

Yna, paratôdd a rheolodd Arup gais am wybodaeth, gan geisio cydweithreidiad gan ACLlau i gasglu data a gwybodaeth nad yw ar gael trwy ffynonellau agored.

Wedi hynny, cynhaliodd Arup gyfres o gyfarfodydd neu alwadau ffôn â ffocws penodol iddynt gyda rhanddeiliaid a ddewiswyd trwy gytundeb â Llywodraeth Cymru, i helpu i ategu ac ychwanegu at y data gyda gwybodaeth ofodol a phrosiectau a chynigion posibl.

Esbonnir hyn yn yr adrannau isod.

2.2.2 Adolygiad Desg

Ar ôl cytuno ar y ffynonellau data allweddol a'n hymagwedd at gyflwyno, dechreuodd Arup y broses o adolygu data cyhoeddedig a data sydd ar gael e.e. data sydd ar gael ar Borth Lle Llywodraeth Cymru, sylfaen dystiolaeth Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ar wefannau Awdurdodau Lleol a'r Cynlluniau Llesiant a gyhoeddwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Caniataodd y broses hon i'r ymchwili gwblhau setiau data, cyn belled ag y bo'n bosibl, lle'r oedd data a gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd (mynediad agored).

Darparodd yr adolygiad desg ddadansoddiad o fylchau i weld pa wybodaeth yr oedd angen ei cheisio gan randdeiliaid h.y. data nad yw ar gael i'r cyhoedd.

Wedi hynny, paratodd Arup geisiadau am wybodaeth a anfonwyd gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru. Rhoddir manylion y cais isod.

2.2.3 Cais am Wybodaeth

Yn dilyn adolygiad desg manwl o ddata cyhoeddedig a data ffynhonnell agored, datblygwyd cais am wybodaeth a anfonwyd at bob ACLl yng Nghymru. Cynhyrchwyd y cais am wybodaeth i:

1. Geisio data nad oedd ar gael trwy'r adolygiad desg (e.e. nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd);
2. Ceisio safbwyntiau ar dybiaethau allweddol a wnaed (e.e. yr ymagwedd at safleoedd cyflogaeth 'mawr'); a
3. Gofyn am haenau GIS ar gyfer setiau data penodol a ddelir ar lefel leol (e.e. lletemau glas).

Pwysleisiwyd yn y cais pa mor fuddiol y byddai i ACLlau ddarparu'r data yn rhan o'r astudiaeth, gan gyfeirio at fwriad Llywodraeth Cymru i gynnal yr holl ddata a dderbynnir (lle y bo'n briodol ac yn ymarferol) ar ei 'Phorth Lle'⁷ ac i sicrhau bod hwn ar gael i'w ddefnyddio a'i ddiweddarau wrth symud ymlaen.

Anfonodd Llywodraeth Cymru y cais cychwynnol am wybodaeth at bob ACLl ar 23 Tachwedd 2018, a gofynnodd i ymatebion gael eu dychwelyd ar 19 Rhagfyr 2018 neu cyn hynny.

Mae copi o'r cais hwn wedi'i gynnwys yn **Atodiad A** er gwybodaeth.

⁷ <http://lle.gov.wales/home?lang=cy>

2.2.4 Cydweithredu

Roedd yr ymateb i'r cais cychwynnol am wybodaeth a wnaed ar 23 Tachwedd 2018 yn araf. Gan ystyried cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, anfonodd Llywodraeth Cymru gais dilynol ar 11 Ionawr 2019, a oedd yn gofyn i'r ACLlau nad oeddent eto wedi ymateb i ddarparu'r data erbyn 25 Ionawr 2019.

Cymerodd Arup gamau ychwanegol i ffonio cysylltiadau o fewn ACLlau i helpu i annog ymatebion a chydweithredu.

Mewn ymateb i'r ohebiaeth e-bost a'r galwadau ffôn dilynol, derbyniwyd rhai ymatebion ychwanegol. Dywedodd nifer o ACLlau fod y data y gofynnwyd amdano eisoes ar gael neu eisoes wedi cael ei rannu gyda Llywodraeth Cymru yn flaenorol. O ganlyniad, nid oedd pob ACLl wedi ymateb yn uniongyrchol trwy gwblhau'r daenlen cais am ddata, ond gwnaethant roi rhestr o adnoddau y gellid cael y data ohonynt. Archwiliodd Arup yr adnoddau hyn ymhellach ac fe'u defnyddiwyd i gwblhau'r daenlen ddata.

Erbyn 15 Chwefror 2019, roedd 16 o'r 25 ACLl wedi darparu ymatebion yn rhan o'r astudiaeth.

2.2.5 Y Sefyllfa o ran Data

Mae Arup wedi gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i ddata o ffynonellau agored ac i annog cydweithrediad o ran y ceisiadau am ddata. Mae hyn wedi arwain at lunio set ddata sy'n darparu cymaint o wybodaeth sylfaenol (gweler 2.1 uchod) ag y bo'n bosibl / yn ymarferol.

Mae rhai setiau data'n rhannol gyflawn o hyd dim ond lle'r oedd ACLlau wedi darparu rhywfaint o'r data ond nid y cyfan ohono, lle'r oedd rhai ACLlau ond nid pob un wedi ymateb i gais am wybodaeth, a lle na chafwyd ymatebion.

Lle mae bylchau'n bodoli o hyd, mae hyn oherwydd ni ellid cael gwybodaeth gywir a chyfredol o ffynonellau eilaidd, ac felly teimlwyd ei bod yn fwy priodol gadael y set ddata'n rhannol gyflawn. Er mwyn cael gwybodaeth sylfaenol mor gyflawn â phosibl, mae Arup wedi defnyddio data ffynhonnell agored mewn rhai meysydd hefyd e.e. data ystadegol gan StatsCymru i amcangyfrif rhai ffigurau (e.e. nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd). Nodir ffigurau o'r fath yn eglur yn y tablau data, fel y dangosir yn Atodiad B.

Mae Tabl 2 yn crynhoi'r sefyllfa o ran y setiau data amrywiol y gofynnwyd amdanynt, y ffynhonnell ddata/ffynonellau data a ddefnyddiwyd i gasglu'r data, a statws y set ddata o ran argaeledd data / yr ymatebion a dderbyniwyd.

Yn ogystal, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Arup gynhyrchu mapiau i ategu'r data a gyflwynir ar ffurf tabl (taenlen). Mae Tabl 1 hefyd yn crynhoi sut mae'r data wedi cael ei ddangos yn ofodol gan ddefnyddio mapiau, lle y bo'n briodol ac yn ymarferol.

Rhoddir y Tablau Data a'r Mapiau yn llawn yn **Atodiad B**.

Mae'r tablau'n cyflwyno'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani gan Lywodraeth Cymru (gweler 2.1 uchod) lle y gellid cael gafael arni, ac mae'r mapiau'n dangos y data lle y bo'n ymarferol.

Er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ystyried materion cenedlaethol a rhanbarthol yn eu tro neu gyda'i gilydd, strwythurwyd Atodiad B i gyflwyno tystiolaeth mewn Tablau a baratowyd i ddangos data sy'n ymwneud â'r tri rhanbarth yng Nghymru yn glir, a darperir y Mapiau canlynol:

1. Rhanbarth Gogledd Cymru;
2. Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru;
3. Rhanbarth De-ddwyrain Cymru; a
4. Lefel Genedlaethol (Pob Rhanbarth).

Tabl 3 Crynodeb o'r Data, y Sefyllfa o ran Data a Mapiau

Set Ddata	Ffynhonnell Ddata / Ffynonellau Data	Y Sefyllfa o ran Data	Map
Cyfnod Cynllun CDLI	Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau)	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos ACLlau / Rhanbarthau'r FfDC gyda Chyfnod y Cynllun wedi'i nodi.
Cyfanswm Darpariaeth Dai	CDLlau	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos ardaloedd ACLI, cyfanswm y ddarpariaeth ac, yn ddelfrydol, nifer yr unedau a ddarparwyd / sy'n weddill.
Tai a Gwblhawyd	Cais am Wybodaeth Adroddiadau Monitro Blynnyddol Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Data Tai gan StatsCymru	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos ardaloedd ACLI, cyfanswm y ddarpariaeth ac, yn ddelfrydol, nifer yr unedau a ddarparwyd / sy'n weddill.
Tai Fforddiadwy	Cais am Wybodaeth Adroddiadau Monitro Blynnyddol Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Data Tai gan StatsCymru	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos ACLlau a Rhanbarthau'r FfDC gyda nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi'i nodi.
Safleoedd Tai wedi'u Dyrannu (1,000+)	CDLlau	Wedi'i gwblhau	Data pwynt ar fap sy'n dangos y dyraniad, gydag allwedd sy'n nodi enw'r safle.
Safleoedd Tai a Ganiatawyd sydd Heb eu Dyrannu (1,000 +)	Hepgorwyd y set ddata hon o'r astudiaeth oherwydd y nifer gyfyngedig o safleoedd / data perthnasol.		
Aneddiadau (5,000 +)	Hepgorwyd y set ddata hon o'r astudiaeth oherwydd y nifer gyfyngedig o safleoedd perthnasol.		

Set Ddata	Ffynhonnell Ddata / Ffynonellau Data	Y Sefyllfa o ran Data	Map
Safleoedd Cyflogaeth Mawr Presennol	Cais am Ddata CDLlau Astudiaethau Tir Cyflogaeth / Adolygiadau Tir Cyflogaeth	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos lleoliad safleoedd.
Safleoedd Cyflogaeth Mawr wedi'u Dyrannu	CDLlau	Wedi'i gwblhau	Map lliwiau gyda maint safleoedd yn amrywio o 10 – 50 ha.
Nifer y Swyddi	Hepgorwyd y set ddata hon oherwydd bod nifer o ACLlau wedi dweud nad ydynt yn mesur swyddi wrth lunio cynlluniau.		
Manwerthu neu Fasnachol Presennol	CDLlau Cynlluniau Datblygu Unedol (CDUau) Sylfaen dystiolaeth CDLl e.e. Astudiaethau Manwerthu	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos lleoliad safleoedd.
Manwerthu neu Fasnachol wedi'u Dyrannu	CDLlau	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos lleoliad safleoedd gydag enwau yn yr allwedd.
Prif Aneddiadau	CDLlau	Wedi'i gwblhau	Map gyda ffiniau ACLlau ac aneddiadau allweddol wedi'u plotio yn ôl poblogaeth.
Lletemau Glas	CDLlau	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos Lletemau Glas ac eithrio lle nad yw ACLlau wedi darparu haenau GIS.
Dynodiadau Amgylcheddol	Data'r Porth Lle	Wedi'i gwblhau	Haenau GIS ar gael fel ffynhonnell agored ac wedi'u mapio.
Safleoedd Mwynau Presennol	Cais am Ddata CDLlau	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos lleoliad safleoedd.
Safleoedd Mwynau wedi'u Dyrannu	Cais am Ddata CDLlau	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos lleoliad safleoedd.
Safleoedd Gwastraff	Cais am Ddata CDLlau	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos lleoliad safleoedd.
Targedau Ynni Adnewyddadwy	Hepgorwyd y set ddata hon gan nad yw ACLlau wedi gosod targedau ynni adnewyddadwy yn gyson hyd yma.		
Seilwaith Ynni Mawr Presennol	Y Gronfa Ddata Cynllunio Ynni Adnewyddadwy (REPD)	Wedi'i gwblhau	Map sy'n cynnwys symbol i ddangos y math o dechnoleg ac enw'r safle.

Set Ddata	Ffynhonnell Ddata / Ffynonellau Data	Y Sefyllfa o ran Data	Map
Ynni Adnewyddadwy Posibl	Cais am Ddata CDLlau Asesiadau Ynni Adnewyddadwy Cronfa Ddata REPD TAN 8	Wedi'i gwblhau	Data pwynt ar y map gydag enw a chapasiti.
Cynlluniau Trafnidiaeth Mawr Arfaethedig	Cais am Ddata CDLlau Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol	Wedi'i gwblhau	Data pwynt ar gyfer cynlluniau gydag enwau lle y bônt ar gael ac yn ymarferol ar gyfer mapio.
Seilwaith Teithio Llesol	Porth Lle	Wedi'i gwblhau	Map sy'n dangos ffiniau ACLlau a gwybodaeth am gynlluniau.

2.3 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Yn rhan o'r astudiaeth, mae Arup wedi arwain ymagwedd amlweddog tuag at gynnwys rhanddeiliaid, fel a ganlyn:

1. Fel yr esboniwyd uchod, yn rhan o'r broses casglu data / gwybodaeth, cysylltwyd ag ACLlau yng Nghymru i ofyn am wybodaeth feintiol a ddelir ganddynt i lywio'r ymchwil;
2. Yn rhan o'r broses SWOT ac wrth geisio amlygu blaenoriaethau rhanbarthol, gwahoddwyd 148 o sefydliadau i fynychu cyfres o ddigwyddiadau gweithdy, yn cynrychioli'r rhai sydd â diddordeb yn economi, cymdeithas, diwylliant ac amgylchedd Cymru. Canolbwyntiodd y gweithdai ar archwilio amrywiaeth o feysydd polisi a materion, yn ogystal â thrafodaethau ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) ym mhob rhanbarth. Gofynnwyd i'r grwpiau rhanddeiliaid beth allai'r FfDC ei wneud i gynyddu ei gyfraniad i'r eithaf at sicrhau llwyddiant rhanbarthau Cymru yn y dyfodol; ac
3. Er mwyn trafod manylion unrhyw brosiectau neu gynigion ar raddfa genedlaethol neu ranbarthol, a / neu gasglu safbwyntiau ynglŷn â'r hyn y dylai / y gallai'r FfDC ei wneud ar gyfer sefydliadau yn awr ac yn y dyfodol, cynhaliodd Arup gyfarfodydd penodol â rhestr ddethol o rhanddeiliaid (fel y cytunwyd gan Lywodraeth Cymru).

2.3.1 Gweithdai Rhanddeiliaid

Mae'r Adroddiadau Gweithdy yn darparu canlyniadau'r digwyddiadau Rhanbarthol a Gwledig ac yn rhoi adroddiad ffeithiol o'r digwyddiadau, eu trafodaethau a'u canfyddiadau.

Paratowyd Adroddiadau Gweithdy ar wahân ar gyfer y digwyddiadau Rhanbarthol a Gwledig yng Ngogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.

Er bod yr Adroddiadau Gweithdy Rhanbarthol a Gwledig yn darparu adroddiad llawn ar gyfer pob rhanbarth, rhoddir crynodeb yn Nhabl 3 a Thabl 4 isod:

Tabl 4 Crynodeb o'r Gweithdai Rhanbarthol

Adborth	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru
Diffinio meysydd polisi, graddfeydd gofodol	1. Dylai mwyafrif y meysydd polisi strategol gael eu diffinio ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, heblaw am yr hierarchaeth aneddiadau, yr angen am dai fforddiadwy a dyraniadau tai (unedau), amcanion neu dargedau trafndiaeth lesol strategol ac asedau treftadaeth adeiledig strategol – a ddylai gael eu diffinio ar lefel leol neu ranbarthol. 2. Mae'r materion trawsffiniol allweddol yn cynnwys trafndiaeth a theithio, seilwaith ynni a llafur / gweithwyr / sgiliau yn ogystal â mannau cyflogaeth / gwaith. 3. Ystyrir bod safle cyflogaeth mawr yng Ngogledd Cymru yn un sy'n 10 hectar neu fwy. 4. Ystyrir bod canolfan gweithgarwch manwerthu a masnachol fawr yng Ngogledd Cymru yn un sy'n cynnal mwy na 1,000 o swyddi.	1. Dylai mwyafrif y meysydd polisi strategol gael eu diffinio ar lefel ranbarthol neu leol, heblaw am brosiectau ynni strategol, amcanion neu dargedau trafndiaeth, materion mwynau, materion gwastraff, materion trawsffiniol a chynllunio morol – a ddylai gael eu diffinio ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. 2. Mae'r materion trawsffiniol allweddol yn cynnwys trafndiaeth a theithio, seilwaith ynni a llafur / gweithwyr / sgiliau yn ogystal â mannau cyflogaeth / gwaith. 3. Mae diffyg consensws o ran graddfa safle cyflogaeth mawr yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, ond ceir pwyslais ar un sydd oddeutu 10 hectar. 4. Ystyrir bod canolfan gweithgarwch manwerthu a masnachol fawr yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru yn un sy'n cynnal mwy na 1,000 o swyddi.	1. Dylai mwyafrif y meysydd polisi strategol gael eu diffinio ar lefel genedlaethol neu ranbarthol, heblaw am yr hierarchaeth aneddiadau, dyraniadau tai a'r angen am dai fforddiadwy, a ddylai gael eu diffinio ar lefel leol neu ranbarthol. 2. Y mater trawsffiniol allweddol yw trafndiaeth a theithio, ac ystyrir bod seilwaith ynni a llafur/gweithwyr/sgiliau yn fater pwysig hefyd. 3. Mae safle cyflogaeth mawr yn Ne-ddwyrain Cymru yn fwy nag 20 hectar, a dywedodd mwyafrif y cyfranogwyr y dylent fod dros 50+ hectar. 4. Ystyrir bod canolfan gweithgarwch manwerthu a masnachol fawr yn Ne-ddwyrain Cymru yn un sy'n cynnal mwy na 3,000 o swyddi.

**Pwyntiau
Allweddol**

- | | | |
|--|---|---|
| <ol style="list-style-type: none"> Balchder yn y Gymraeg fel ased diwylliannol, ond amrywiadau mawr ledled Gogledd Cymru fel rhanbarth, yn enwedig rhwng Gogledd-orllewin a Gogledd-ddwyrain Cymru Cysylltiadau trawsffiniol cryf a chysylltiadau trafnidiaeth a phorthladdoedd da, ond angen gwelliannau o ran mynediad at hedfan a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â chysylltiadau rhwng y gogledd a'r de Cysylltedd digidol cryf a chefnogaeth i weithio'n symudol a gweithio o gartref Diwydiant ynni adnewyddadwy sefydledig a chyfleoedd yn sgil Bargaen Twf y Gogledd Dibyniaeth ar amaethyddiaeth a phryderon ynglŷn â chyllid ar ôl Brexit Pryder ynglŷn â cholli diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn sgil mewnfudo ac allfudo, yn ogystal ag ail gartrefi Gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol yn ffactor allweddol sy'n denu pobl i fyw ac aros yn y rhanbarth, a thwristiaeth yn ased economaidd Pryderon ynglŷn â newidiadau mewn demograffeg yn sgil diboblogi a phoblogaeth sy'n heneiddio, gan ystyried effeithiau draen dawn, mewnlifiad pobl sydd wedi ymddeol a dychweliad pobl sydd wedi bod yn byw dramor ar ôl Brexit Mwy o bwysau ar wasanaethau a llai o gyllid Anghenion tai i ddibynnu llai ar ddatblygwyr mawr a darparu'r mathau o dai y mae eu hangen ar bobl yn hytrach na'r hyn y mae'r farchnad yn ei ddarparu. | <ol style="list-style-type: none"> Balchder yn y Gymraeg ac awydd i gynnal a chynyddu'r defnydd ohoni mewn cymunedau Effaith Brexit ar yr economi, yn enwedig yn y sector amaethyddol ac o ran gweithrediad porthladdoedd Gweithlu sy'n dirywio a sylfaen sgiliau isel yn y rhanbarth, a briodolir i golli swyddi mewn trefi ar y ffin, pobl ifanc sy'n allfudo a chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer prentisiaethau Pryder ynglŷn â thwf poblogaeth negyddol a demograffeg sy'n gynyddol wyrgram, gyda phwysau cysylltiedig ar wasanaethau iechyd Cyfleoedd yn sgil cysylltedd digidol a pharodrwydd i ymateb i ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys gweithio o gartref Ffyrdd iach o fyw fel cryfder llesiant pwysig a chyfle i ddenu mwy o bobl i'r rhanbarth Pwysigrwydd ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a thwf economi carbon isel yn y rhanbarth Consensws ynglŷn ag asedau naturiol a threftadaeth rhanbarthol – Parciau Cenedlaethol, y dirwedd, yr arfordir, ac awyr dywyll, a'u cyfleoedd ar gyfer twf tymhorol twristiaeth, gan gynnwys twristiaeth amgylcheddol Pryder ynglŷn â cholli diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn sgil mewnfudo ac allfudo, yn ogystal ag ail gartrefi, o ran eu cyfraniad canfyddedig tuag at chwalu cymunedau Dim digon o dai marchnad a thai fforddiadwy, ochr yn ochr â chyfleoedd i dai gwyrdd a thai sy'n cael eu hadeiladu oddi ar y safle fodloni anghenion rhanbarthol. | <ol style="list-style-type: none"> Er bod cynlluniau cadarnhaol ar waith i wella trafnidiaeth o amgylch y rhanbarth (e.e. Metro/Bargaen Ddinesig), mae cysylltedd yn yr ystyr ffisegol a digidol yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth. Mae cysylltiadau trawsffiniol â Lloegr yn bwysig i lwyddiant y rhanbarth, ond mae hyn dan fygythiad o ganlyniad i dagfeydd (yn enwedig ar hyd yr M4) a'r seilwaith rheilffyrdd presennol. Mae angen gwerthfawrogi a chynllunio'n gall i adlewyrchu amrywiaeth economaidd yr ardal a mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Cefnogaeth i ddatgarboneiddio, yn enwedig o ran trafnidiaeth, ond mae angen i hyn gael ei gynllunio'n ofalus oherwydd cyfyngiadau'r seilwaith grid presennol. Sector addysg cryf, ond mae angen cadw sgiliau yn yr ardal i atal 'draen dawn'. Gwarchod yr amgylchedd naturiol fel ased rhanbarthol, ar yr un pryd â manteisio i'r eithaf ar ei botensial o ran twristiaeth ac adfywio. Pryderon ynglŷn â rheoli gwastraff a'r ymagwedd leol bresennol. Pryderon ynglŷn â manwerthu lleol a cholli'r Stryd Fawr draddodiadol, a llai arwain at yr angen i amrywiaethu defnyddiau canol trefi. Cysylltedd rhyngwladol: angen darparu gwell mynediad a chyfleoedd o amgylch Porthladdoedd a Maes Awyr Caerdydd. Cefnogaeth gref i entrepreneuriaeth a busnesau bach a chanolig (BBaChau). |
|--|---|---|

Adborth	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru
Sut gallai neu sut dylai'r FfDC helpu	1. Gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol, gyda chyfle i integreiddio â datganiadau ardal, a chynllunio mwynau, gwastraff, arfordirol a morol 2. Gwarchod y Gymraeg ac asedau diwylliannol cysylltiedig 3. Cydnabod pwysigrwydd cysylltedd a chysylltiadau trawsffiniol 4. Hwyluso twristiaeth gynaliadwy 5. Ysgogi buddsoddiad a chefnogi amrywiaethu a lledaenu'r economi'n fwy cyfartal yn y dyfodol 6. Cefnogi amaethyddiaeth a'r prif ddiwydiannau cysylltiedig ar ôl Brexit 7. Caniatáu hyblygrwydd o ran targedau tai, ailddefnyddio adeiladau presennol a'r farchnad dai, ac ailystyried cydbwysedd cymunedau trwy roi mwy o reolaeth dros ail gartrefi a'r boblogaeth anfrodorol 8. Mwy o allu ar gyfer mentrau a datblygiadau a arweinir gan y gymuned, ac annog y gymuned i ymwneud yn gynnar â llunio a datblygu cynlluniau 9. Annog datblygiad a fydd yn helpu i gadw pobl ifanc yn yr ardal 10. Cefnogi ynni adnewyddadwy a chysylltiadau â'r grid yn ogystal â helpu'r agenda ddatgarboneiddio.	1. Gwarchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol, gyda chyfle i integreiddio â datganiadau ardal, a chynllunio mwynau, gwastraff, arfordirol a morol 2. Annog cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau a datblygiadau addysgol eraill a fydd yn helpu i gadw pobl ifanc yn yr ardal a datblygu'r sylfaen sgiliau 3. Cefnogi twf gwyrdd trwy ynni adnewyddadwy a chysylltiadau â'r grid yn ogystal â helpu'r agenda ddatgarboneiddio, gan gynnwys trwy berchenogaeth leol o brosiectau ynni 4. Cefnogi safleoedd amgylcheddol a hanesyddol dynodedig a'u rheolaeth 5. Gwarchod y Gymraeg ac asedau diwylliannol cysylltiedig 6. Ysgogi twf yr economi a'r seilwaith digidol 7. Cysylltedd polisi rhwng gweithgareddau a ddarperir ar wahanol sylfeini gofodol 8. Hwyluso twristiaeth gynaliadwy ledled y rhanbarth 9. Annog gweithio mewn partneriaeth a chreu cynlluniau ar lefel strategol 10. Caniatáu hyblygrwydd o ran targedau tai, ailddefnyddio adeiladau presennol a'r farchnad dai, ac ailystyried cydbwysedd cymunedau trwy roi mwy o reolaeth dros ail gartrefi a'r boblogaeth anfrodorol.	1. Cydnabod pwysigrwydd cysylltedd a chysylltiadau trawsffiniol. 2. Darparu polisiâu amgylcheddol rhanbarthol strategol, yn enwedig mewn meysydd penodol e.e. rheoli gwastraff, rheoli dŵr. 3. Cefnogi'r agenda ddatgarboneiddio a chynllunio strategol ar gyfer seilwaith grid. 4. Hwyluso cyfleoedd i wella twristiaeth yn yr ardal, yn enwedig ym Mlaenau'r Cymoedd. 5. Mynd i'r afael â gwahaniaethau ac anghydraddoldebau rhanbarthol. 6. Annog mwy o fuddsoddi mewn Porthladdoedd a Maes Awyr Caerdydd i wella cysylltedd rhyngwladol. 7. Cefnogi datblygiad sy'n hybu cydnerthedd amgylcheddol a chymdeithasol ac sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. 8. Caniatáu hyblygrwydd o ran ailddefnyddio adeiladau presennol, amrywiaethu canol trefi a darparu lle cyflogaeth sy'n addas i BBaChau/unedau byw-gweithio. 9. Hyrwyddo seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau. 10. Annog datblygu cynaliadwy sy'n adlewyrchu anghenion cyflogaeth a sgiliau, gan helpu i gadw pobl ifanc yn y rhanbarth.

Tabl 5 Crynodeb o'r Gweithdai Gwledig

Adborth	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru
Pwyntiau Allweddol	1. Ceir cydnerthedd a bywiogrwydd cymunedol cryf, ond mae hyn dan fygythiad oherwydd ail gartrefi, allfudo a mewnlifiad poblogaeth sy'n cymudo 2. Mae'r Gymraeg yn ased diwylliannol cryf mewn cymunedau gwledig, ond mae dan fygythiad yn sgil newidiadau i'r boblogaeth 3. Mae cyfle i'r gymuned gymryd rhan ac arwain datblygiadau / mentrau trwy'r broses gynllunio 4. Ceir mynediad da at fannau gwyrdd a'r amgylchedd naturiol o ansawdd uchel 5. Mae angen i dai gael eu cysylltu'n well â chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, a dylai mwy gael eu darparu gan adeiladwyr a phobl leol 6. Mae twristiaeth yn sbardun economaidd pwysig 7. Ceir dibyniaeth ar geir preifat a bydd angen seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig yn y dyfodol 8. Mae angen mynd i'r afael ag arwahanrwydd, unigrwydd a mynediad at wasanaethau iechyd o ystyried newidiadau i'r boblogaeth sy'n heneiddio a diffyg cyllid i gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau gofal cymdeithasol / cymunedol 9. Mae cyfleoedd i amrywiaethu yn sgil yr economi gylchol o ran gwastraff, yn ogystal â gwella masnacheiddio pysgota a chynhyrchu ynni adnewyddadwy 10. Bydd awtomeiddio diwydiannau ac uwchsgilio pobl leol yn bwysig yn y dyfodol.	1. Mae angen clir i gydbwyso twf economaidd ac arloesedd â gwarchod asedau amgylcheddol 2. Mae'r Gymraeg yn ased diwylliannol cryf mewn cymunedau gwledig, ond mae dan fygythiad yn sgil newidiadau i'r boblogaeth a llai o fynediad at ysgolion Cymraeg 3. Mae cyfle i'r gymuned gymryd rhan ac arwain datblygiadau / mentrau, a chyfle ar gyfer entrepreneuriaeth y gellid eu cefnogi trwy'r broses gynllunio 4. Ceir cydnerthedd cymunedol cryf, ond mae hyn dan fygythiad oherwydd ail gartrefi, allfudo a mewnlifiad poblogaeth sy'n cymudo, sy'n creu 'Canolfannau Cymudo' ar draul cymunedau go iawn 5. Mae'r amgylchedd naturiol o ansawdd uchel yn cael ei werthfawrogi ac mae angen i ardaloedd dynodedig ac annynodedig gael eu gwarchod yn y dyfodol yn sgil y newid yn yr hinsawdd 6. Mae angen i dai gael eu cysylltu'n well â chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, a dylai mwy gael eu darparu gan adeiladwyr a phobl leol 7. Mae twristiaeth yn sbardun economaidd pwysig ac mae'r sector yn cyflwyno sawl cyfle rhanbarthol sy'n gysylltiedig ag amrywiaethu, gan gynnwys twristiaeth amgylcheddol 8. Ceir dibyniaeth ar geir preifat a bydd angen seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig yn y dyfodol ...	1. Mae ardaloedd gwledig yn Ne-ddwyrain Cymru heb eu difetha at ei gilydd gyda thirwedd o ansawdd uchel, ond maen nhw wedi'u lleoli'n agos i ardaloedd trefol 2. Mae hygyrchedd da i ardaloedd trefol yn Ne-ddwyrain Cymru at ei gilydd, ond mae hyn yn 'gleddyf daufiniog' oherwydd ei fod yn gallu bod ar draul gwledigrwydd ac mae wedi'i gyfyngu i fynediad trwy ffyrdd yn gyffredinol 3. Mae ansawdd y dirwedd ac adnoddau naturiol yn gryfder sy'n darparu ystod o fuddion, gan gynnwys buddion iechyd, cymdeithasol ac economaidd 4. Mae twristiaeth a chyfleoedd hamdden yn sbardunau economaidd cryf yn yr ardal y gellid eu hymestyn ymhellach, ond mae angen cydbwyso hyn yn erbyn argaeledd tir 5. Mae llawer o ardaloedd gwledig yn Ne-ddwyrain Cymru yn arfordirol, ac felly mae perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn fygythiadau mawr i'r ardal 6. Amlygwyd prisiau tai sy'n codi yn Ne-ddwyrain Cymru fel bygythiad i gymunedau gwledig sydd mewn perygl o ddod yn drefi noswyllo i ddinasoedd mawr ar draul hunaniaeth a chydlyniant cymunedol 7. Mae angen cefnogi gwahanol fathau o dai mewn ardaloedd gwledig e.e. tai fforddiadwy, tai i bobl hŷn, hunanadeiladu, a symud oddi wrth

Adborth	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru
		9. Mae angen mynd i'r afael ag arwahanrwydd, unigrwydd a mynediad at wasanaethau iechyd o ystyried newidiadau i'r boblogaeth sy'n heneiddio a diffyg cyllid i gefnogi cyfleusterau a gwasanaethau gofal cymdeithasol / cymunedol 10. Mae cyfleoedd i amrywiaethu yn sgil yr economi gylchol, gan gynnwys trwy wastraff, ac mae digon o gyfleoedd ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn rhanbarthol.	ddebryniaeth ar adeiladwyr tai traddodiadol ar raddfa fawr 8. Ceir hunaniaeth gymunedol gref o hyd, ac felly mae cyfle ac angen i gynnwys cymunedau'n fwy yn y broses gynllunio ... 9. Yn gyffredinol, nodweddir yr economi wledig gan BBaChau, gwasanaethau a 'mentrau gwledig' y mae angen eu diffinio y tu hwnt i fusnesau amaethyddol yn unig 10. Mae ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni adnewyddadwy cymunedol, yn gyfle y mae angen ei gydbwyso'n ofalus o ran ei effaith ar y dirwedd.
Sut y gallai neu y dylai'r FfDC helpu	1. Gwarchod amaethyddiaeth a chefnogi cyfleoedd rheoli tir a chymunedau amaethyddol 2. Gallai datganoli cynhyrchu ynni trwy fentrau a arweinir gan y gymuned helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd 3. Mae angen mwy o addysg am y broses gynllunio a materion gwledig i fynd i'r afael â chamddealltwriaeth neu ddryswch ynghylch sut gall cynllunio gefnogi datblygiad gwledig 4. Mae angen gwneud mwy i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd mewn ardaloedd gwledig 5. Hyblygrwydd i gyrraedd targedau tai a darparu'r mathau iawn o dai, gan gynnwys ymestyn ailddefnyddio a datblygu a ganiateir i adeiladau rhestredig ac adeiladau amaethyddol, yn ôl eu trefn	1. Yr angen am seilwaith trafniadaeth gynaliadwy i wella cysylltedd â chanolfannau trefol a threfi, gan gynnwys trwy seilwaith rheilffyrdd a cherbydau trydan 2. Pryder ynglŷn â cholli cymunedau o ganlyniad i batrymau cymudo ac allfudo'r genhedlaeth iau, ochr yn ochr â'r angen i ddarparu stoc dai a mathau o dai sy'n bodloni gofynion y rhanbarth ac sy'n gweithredu i gadw cymunedau presennol 3. Yr angen i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth gwell sy'n talu'n dda, a gwella mynediad at wasanaethau a darpariaeth gwasanaethau 4. Cydnabyddir hunaniaeth ddiwylliannol gref y rhanbarth a phresenoldeb cryf y Gymraeg, ond mae angen i ddatblygu helpu i warchod y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni	1. Creu gweledigaeth strategol ar gyfer Cymru wledig 2. Sbardunwyr polisi i warchod gwledigrwydd, yn enwedig mewn ardaloedd o gwmpas trefi 3. Rhoi blaenoriaeth i iechyd pobl wrth wneud penderfyniadau 4. Darparu mesurau diogelu mwynau ar lefel genedlaethol 5. Strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli dŵr a rheoli'r arfordir, a'r seilwaith hollbwysig y mae ei angen yn y maes hwn 6. Ailddechmygu rôl 'trefi marchnad' traddodiadol gan gefnogi mentrau cymunedol a strydoedd mawr gwledig i ailfywiogi'r ardaloedd hyn, gwarchod gwasanaethau lleol a lleihau all-lif y boblogaeth

Adborth	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru
	6. Mae angen i greu lle ganolbwyntio'n well ar ddatblygu cymunedau mewn ardaloedd gwledig sy'n gysylltiedig â thai a wasanaethir gan gyfleusterau a gwasanaethau, gan gynnwys ystyried dŵr preifat, ynni a systemau draenio cynaliadwy (SuDS) ... 7. Mae angen i ddatblygu helpu i warchod y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni 8. Dylai'r system gynllunio helpu i warchod cymunedau gwledig ac ymylol trwy ganiatáu mwy o reolaeth ar dai, er enghraifft trwy atal mewnlifiad perchenogion ail gartrefi a buddsoddwyr sy'n bygwth y boblogaeth frodorol 9. Cefnogi twristiaeth werdd a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig 10. Bydd cadw pobl leol trwy greu cyflogaeth, amrywiaethu diwydiant a chaniatáu amgylcheddau gweithio hyblyg yn bwysig yn y dyfodol.	5. Asedau amgylcheddol a threftadaeth o ansawdd uchel, gan gynnwys yr amgylchedd morol ... 6. Mae twristiaeth yn gryfder a cheir cyfleoedd i greu 'cynnig newydd' yn y rhanbarth trwy amrywiaethu, ac i gynhyrchu enillion economi ranbarthol e.e. trwy dreth dwristiaeth 7. Cyfleoedd am arloesedd cymdeithasol ac entrepreneuriaeth mewn ardaloedd gwledig, a'r potensial i'r rhain gael eu cefnogi gan y system gynllunio a buddsoddiad 8. Angen i gynllunio a dyrannu tir ar gyfer cyfleusterau cymunedol greu 'lleoedd gwerth byw ynddynt' ac ymdeimlad o le 9. Bygythiad ar amaethyddiaeth yn gysylltiedig â Brexit, yn ogystal â'r potensial i borthladdoedd rhyngwladol yn Iwerddon gystadlu am fasnach yn y dyfodol 10. Pwysigrwydd ymestyn ynni adnewyddadwy, gan gynnwys trwy gynlluniau ynni adnewyddadwy ar y tir ac a arweinir gan y gymuned, a datblygu economi carbon isel yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru.	7. Annog cymunedau i gymryd mwy o ran mewn cynllunio gwledig ar bob cam o'r broses i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol a chamddealltwriaethau presennol ynglŷn â'r system gynllunio ... 8. Cefnogi darparu gwahanol fathau o dai, yn enwedig tai fforddiadwy, sy'n cynrychioli dyluniad trefol o ansawdd da sy'n briodol i gyd-destunau gwledig, a chaniatáu hyblygrwydd o ran targedau tai i gyflawni hyn 9. Darparu arweiniad strategol cenedlaethol ar ddarparu seilwaith gwyrdd mewn datblygiadau newydd 10. Cyfleoedd i annog entrepreneuriaeth a gwahanol ddulliau o weithio mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft gweithio o gartref, a chreu datblygiad i gefnogi hyn.

2.3.2 Cyfarfodydd â Ffocws

Cysylltwyd ag amrywiaeth o sefydliadau / rhanddeiliaid i drafod manylion unrhyw brosiectau neu gynigion ar raddfa genedlaethol neu ranbarthol, a / neu i gasglu safbwyntiau ynglŷn â'r hyn y dylai / y gallai'r FfDC ei wneud ar gyfer cynlluniau sefydliadau wrth symud ymlaen.

Roedd y mathau o sefydliadau yr ymgysylltwyd â nhw yn cynnwys:

- a) Cwmnïau dŵr a charthffosiaeth rheoledig;
- b) Cwmnïau dosbarthu a thrawsyrru trydan rheoledig;
- c) Cwmnïau cyflenwi a dosbarthu nwy rheoledig;
- ch) Bargen Ddinesig / Bargeinion Twf;
- d) Cyfoeth Naturiol Cymru;
- dd) Trafnidiaeth Cymru;
- e) Porthladdoedd Cymru;
- f) Byrddau Iechyd; a
- ff) Phrifysgolion.

Nid oedd pob sefydliad wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, a rhoddodd rhai sefydliadau resymau yn cynnwys:

- Nid oedd eu cynlluniau'n ddigon datblygedig i'w rhannu mewn ffordd ystyrlon;
- Nid oedd ganddynt unrhyw brosiectau neu gynigion yn yr arfaeth ar raddfa genedlaethol neu ranbarthol; a/neu
- Nid oeddent eisiau rhannu manylion prosiectau neu gynigion o ystyried natur sensitif eu cynlluniau ar yr adeg hon.

2.3.3 Adborth / Gwybodaeth a Gasglwyd

Cafodd Arup y wybodaeth ganlynol gan y rhai a gymerodd ran. Fe'i cyflwynwyd ar lefel genedlaethol (Cymru) ac yna yn ôl y Rhanbarth FfDC y diffiniwyd y prosiectau neu'r cynigion ynddo.

Cymru

Codwyd pwynt cyffredinol mewn nifer o'r trafodaethau â rhanddeiliaid ynglŷn â'r angen am arweinyddiaeth gref i ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod newid diwylliant yn hanfodol i lwyddiant y FfDC a chynllunio defnydd tir yn gyffredinol, yn enwedig yn y dinas-ranbarthau, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd i ddod.

Yn arbennig, roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi fframwaith cynllunio cenedlaethol wedi'i ddatblygu a'i ddarparu o amgylch y pum ffordd o weithio a hyrwyddir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gweithio i gyflawni'r Nodau Llesiant cenedlaethol a hyrwyddir gan PPW10⁸.

Amlygodd ymgynghoriad â **Thrafnidiaeth Cymru** (TfW) fod y Modelau Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg (De-orllewin / Canolbarth Cymru a Gogledd Cymru) yn allweddol i'r FfDC / CDSau wrth symud ymlaen. Bydd y modelau'n caniatáu ar gyfer ystyried cynigion strategol yn llawnach ac yn darparu rhagolygon o effaith gronol datblygiadau arfaethedig ar draws y rhanbarthau. Soniodd y trafodaethau hefyd am bwysigrwydd seilwaith gwefru Cerbydau Trydan a'r effaith bosibl y bydd hyn yn ei chael ar y rhwydwaith cyflenwi trydan. Roedd prosiectau nodedig a grybwyllwyd yn ystod y cyfarfod yn cynnwys:


- Gorsaf Parcffordd Abertawe;
- Gorsaf Parcffordd Caerdydd;
- Y Rhaglen Metro + (gweler Dinas-Ranbarth Caerdydd);
- Metro Cam 2;
- Cynllun Gwella Gorsafoedd Cymru a'r Gororau (Rheilffyrdd TfW);
- Metro Gogledd-ddwyrain Cymru;
- Gweithredu canolfannau trafndiaeth o amgylch datblygiadau dwysedd uwch; a
- Buddsoddi mewn rhwydweithiau ffyrdd allweddol (fel yr amlygwyd yn y Cynllun Buddsoddi).

Mae gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Dîm **Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru** yn ymhelaethu ar y pwynt olaf uchod ac yn cadarnhau rhai o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae tîm polisi trafndiaeth Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynhyrchu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd, o ystyried oed y fersiwn flaenorol (2008). Cynigir ymagwedd dwy haen i'r strategaeth newydd, yn cynnwys datganiad polisi cyffredinol a ategir gan nifer o ddatganiadau polisi thematig.

⁸ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Strwythur Arfaethedig Strategaeth Drafnidiaeth Cymru



Ochr yn ochr â'r flaenoriaeth i ddatblygu'r strategaeth newydd, mae'r ymgynghoriad hefyd wedi codi blaenoriaethau allweddol o dan nifer o themâu:

1. Seilwaith Rheilffyrdd: Manteisio ar gyfleoedd y fasnachfaint newydd – mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn y rhwydwaith rheilffyrdd (gan gynnwys y Cynlluniau Gwella Gorsafoedd) a gwaith yn ymwneud â datblygu canolfannau cymunedol o amgylch gorsafoedd, gan ddarparu gwasanaethau a lle hanfodol i fusnesau bach.
Yn ogystal, amlygodd y drafodaeth y gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo ar gyfnewidfeydd trafnidiaeth ym Mhentref Llancirwg (Parcfordd Caerdydd), y Sgwâr Canolog, Caergybi a Wrecsam.
Mae achos mwy diweddar dros fuddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd wedi cael ei baratoi gan yr Athro Mark Barry⁹.
2. Diwygio Bysiau a Cherbydau Hurio Preifat – gan adlewyrchu'r dyheadau yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018¹⁰ sy'n ceisio darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig sy'n ddiogel, yn ddibynadwy, yn brydlon, yn amgylcheddol gynaliadwy ac yn hygyrch.
3. Gofynion y Ddeddf Teithio Llesol – sy'n rhan allweddol o nod y Llywodraeth i geisio cynyddu'n sylweddol nifer y bobl sy'n cyflawni teithiau pob dydd ar

⁹ https://llyw.cymru/rhwydwaith-rheilffyrdd-cymru?_ga=2.111036364.892035585.1557737906-613136503.1479996126

¹⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-12/gwella-trafnidiaeth-gyhoeddus.pdf>

droed ac ar feic. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar gyfer awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru y dylai'r FfDC eu hystyried.


4. Seilwaith Ffyrdd (cynlluniau ffyrdd mawr) – Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynnal a chadw, gweithredu a rheoli dros 75 o filltiroedd o draffordd a 1000 o filltiroedd o gefnffyrdd yng Nghymru. Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn darparu cysylltedd hollbwysig i lawer o gymunedau, gan gynnwys ardaloedd gwledig, tra bod y rhwydwaith traffordd yn allweddol i gefnogi economi Cymru. Mae'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer ffyrdd yn cynnwys:

Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thagfeydd , yn enwedig mewn ardaloedd fel yr A55 yng Ngogledd Cymru, yr A40 yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a'r M4 yn Ne Cymru.	<u>Rhaglen Pwynt Pwyso</u> Rhaglen o ymyriadau ar raddfa fach sy'n ceisio mynd i'r afael ag ardaloedd lle y ceir tagfeydd ar y rhwydwaith traffordd a chefnffyrdd yng Ngogledd a De Cymru, a darparu cyfleoedd diogel i oddiweddyd yng Nghanolbarth Cymru, yn sgil adeiladu cynlluniau unigol sydd i ddechrau o 2019/20 ymlaen.
	<u>Prosiect Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd</u> Daeth Ymchwiliad Cyhoeddus blwyddyn o hyd i ben ym mis Mawrth 2018. Ar ôl derbyn adroddiad yr Arolygwyr, mae swyddogion bellach yn cwblhau proses diwydrwydd dyladwy i adolygu'r canfyddiadau a llywio penderfyniad ar b'un a ddylid gwneud y Gorchmynion statudol, sef rhoi caniatâd datblygu i bob pwrpas. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan ddadl a phleidlais ymrwymedig y Senedd.
	<u>Gwella'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin</u> Mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn unol â'r rhaglen. Mae dyluniad amlinellol ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol manwl wedi cael eu cwblhau. Mae pecyn cyllid wedi cael ei sicrhau. Mae perygl isel o beidio â chyflawni'r rhaglen.
	<u>Rhaglen Wella'r A40 Sanclêr i Hwlfordd</u> Rhaglen o ymyriadau ar raddfa lai i geisio mynd i'r afael â thagfeydd, diogelwch a dibynadwyedd ar yr A40 rhwng Sanclêr a Hwlfordd.

Ar lefel ranbarthol, amlygodd yr ymgynghoriad y prosiectau / cynigion canlynol:

- **Metro De-ddwyrain Cymru** – system drafndiaeth integredig o amgylch Prifddinas-Ranbarth Caerdydd¹¹.

»»Metro



The potential Metro network

- **Metro Gogledd Cymru** – sy'n canolbwyntio ar ddarparu cysylltedd i Gaergybi ac yn drawsffiniol i Ogledd Lloegr¹².
- **Metro De-orllewin Cymru** – cysyniad a ddechreuodd yn 2017/18 ac y disgwylir iddo ddarparu system drafndiaeth a fydd yn hollbwysig i gyflawni nodau, amcanion a blaenoriaethau'r Prifddinas-Ranbarth.

Ymdriniodd trafodaethau â **Cyfoeth Naturiol Cymru** (NRW) â nifer o feysydd / themâu allweddol, fel a ganlyn:

- Datganiadau Ardal;
- Llifogydd;
- Darparu Ynni;
- Y Môr; a
- Choedwigaeth.

¹¹ <https://llyw.cymru/metro-de-cymru-llawlyfr-crvno? ga=2.14050046.892035585.1557737906-613136503.1479996126>

¹² <https://llyw.cymru/metro-gogledd-ddwyrain-cymru-symud-gogledd-cymru-ymlaen? ga=2.14050046.892035585.1557737906-613136503.1479996126>

Bydd y Datganiadau Ardal sy'n dod i'r amlwg yn darparu sylfaen dystiolaeth allweddol a ddylai, ym marn NRW, gyfrannu at lunio polisïau (gan gynnwys diweddariadau CDLI). Yn anffodus, ni ddisgwylir i'r Datganiadau Ardal gael eu cwblhau ar sail Cymru gyfan tan 2020, er y gallai proffiliau fod ar gael cyn hynny. Yr hyn sy'n hollbwysig i NRW yw sicrhau bod y FfDC a pholisïau yn adlewyrchu'r dystiolaeth yn y Datganiadau Ardal hyn yn fwy cyffredinol, yn ogystal â gwaith ehangach wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n cael ei wneud gan NRW.

Hoffai NRW weld y mapiau cyfle sy'n dod i'r amlwg yn cael eu mewnbllannu yn y FfDC ynghyd â'r themâu allweddol yn y Datganiadau Ardal a'u proffiliau. Yn y tymor byr, mae'n bosibl y bydd angen cynnwys bachau a chyfeiriadau yn y manau priodol i sicrhau bod CDSau neu adolygiadau CDLI yn ystyried y Datganiadau Ardal wrth iddynt ddod ar gael.

Ochr yn ochr â hyn, roedd NRW o'r farn ei bod yn bwysig bod y FfDC yn gosod gweledigaeth eglur ar gyfer Cymru a'r Rhanbarthau a fydd, yn ei thro, yn gosod y cynllun / tôn ar gyfer lefelau cynllunio is.

O ran yr amgylchedd morol, crybwyllwyd y cysylltiad â Chynlluniau Morol ynghyd â phwysigrwydd amlygu / cydnabod yr anghenion ar y tir sy'n gysylltiedig â chynlluniau ynni adnewyddadwy ar y môr (gan gynnwys y cysylltiadau angenrheidiol â'r grid).

Amlygwyd llifogydd fel cyfyngiad allweddol, a bod angen i seilwaith hollbwysig (e.e. amddiffynfeydd) gael ei gydnabod a'i ddiogelu.

Credwyd bod darparu ynni yn rhan allweddol o rôl NRW, o ystyried ffocws eu tîm Darparu Ynni a'r potensial a amlygwyd yn yr ystad goedwigaeth ac ystad ehangach NRW. Mae hyn yn gysylltiedig â'r gwaith ynni adnewyddadwy ehangach sy'n cael ei wneud i gefnogi'r FfDC.

Nodwyd bod goedwigaeth yn faes y dylid rhoi mwy o bwyslais iddo yn y FfDC, o ystyried bod Cymru ar ei hôl hi yn gyffredinol o ran targedau ar gyfer creu coetir. Awgrymodd y drafodaeth y byddai angen plannu tua 2,000 ha y flwyddyn o goetir newydd o 2020 ymlaen. Mae NRW yn gweithio i amlygu'r cyfle ar gyfer hyn a hefyd i archwilio buddiannau ehangach cynlluniau plannu o'r fath mewn perthynas â phethau fel perygl llifogydd i lawr yr afon.

Dywedodd **darparwyr ynni** fod y broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yn darparu'r llwybr gorau i roi caniatâd ar gyfer eu prosiectau seilwaith mawr, at ei gilydd, ac felly eu bod yn teimlo bod y system gynllunio bresennol yn addas ac yn briodol o ran gweithdrefnau.

Nid oedd darparwyr ynni wedi amlygu unrhyw brosiectau seilwaith na rhaglenni darparu y dylai'r FfDC eu cydnabod ar raddfa ranbarthol neu genedlaethol, heblaw am SP Energy Networks (SPEN) a gyfeiriodd at eu rhaglen 'Gwefru / Charge' (gweler Gogledd Cymru).

Gogledd Cymru

Amlygodd trafodaethau â **Hafren Dyfrdwy** rai prosiectau allweddol y maen nhw'n debygol o ganolbwyntio arnynt yn y blynyddoedd i ddod. Nid yw'r rhain yn benodol yn ofodol eto, ond byddant yn esblygu ac yn datblygu wrth i'r sefydliad gadarnhau ei flaenoriaethau buddsoddi. Mae'r prosiectau'n cynnwys:

- **Newidiadau i ddeddfwriaeth safonau ansawdd dŵr** – mae'r newid hwn yn mynnu nad oes unrhyw olion plwm yn y cyflenwad dŵr erbyn 2030-35. Mae gan hyn oblygiadau mawr i seilwaith ehangach, ac felly mae gan Hafren Dyfrdwy raglen fuddsoddi sy'n targedu hen bibwaith rhwng prif bibellau a'r cyflenwad. Mae hyn yn canolbwyntio ar ysgolion yn y tymor byr, ond bydd yn cael ei gyflwyno i ddarparwyr allweddol eraill (e.e. ysbytai) ac mae gwaith yn parhau i amlygu'r mannau gofodol lle y ceir problemau ar y rhwydwaith / i ganolbwyntio buddsoddiad.
- **Buddsoddi mewn Cronfeydd Dŵr** – mae Hafren Dyfrdwy yn cydnabod na fuddsoddwyd digon mewn cronfeydd dŵr yn ystod y blynyddoedd diweddar. Felly, amlygwyd buddsoddiad ar gyfer AMP7 sy'n bwriadu buddsoddi yn y seilwaith cronfeydd dŵr, gan eu cydnabod yn asedau allweddol ar gyfer Cymru.
- **Cynllunio Cydnerthedd** – yn ogystal â'r uchod, crybwyllwyd yr angen am gynllunio cydnerthedd ar gyfer y dyfodol. Dilynodd hyn y cyfnod o dywydd poeth yn yr haf 2018 a cheisiadau gan NRW a'r gymuned ffermio am ddŵr dros ben. Mae hyn yn achosi problemau hygrychedd i Hafren Dyfrdwy, yn enwedig o ran maint y tanceri a maint / cyflwr llawer o'r ffyrdd yn eu hardal. Felly, mae gwaith yn parhau i weld sut y gallant gynorthwyo eu cwsmeriaid yn well yn ystod y cyfnodau hyn.

Amlygodd trafodaethau â **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** ddeg prosiect blaenoriaeth ofodol yn yr ardal, fel a ganlyn:

1. Canolfan Gofal Sylfaenol Llanfair PG;
2. Canolfan Gofal Sylfaenol/Canolfan Les Pen y Groes;
3. Canolfan Iechyd a Lles Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych;
4. Ad-drefnu Ysbyty Rhuthun;
5. Canolfan Iechyd a Lles Dyffryn Clwyd;
6. Canolfan Gofal Sylfaenol Conwy/Llandudno;
7. Uned Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl Ablett;
8. Ysbyty Wrecsam Maelor;
9. Canolfan Gofal Sylfaenol Plas y Bryn/Beechley; ac
10. Ysbyty Abergele + ad-drefnu llety swyddfa.

Amlinellodd **Prifysgol Bangor** gynlluniau ar gyfer ad-drefnu eu hystad, gan gydgrynhoi'r brifysgol ar gampws craidd yng nghanol y ddinas, gyda'r bwriad ehangach o gefnogi siopau lleol a'r gymuned. Bydd hyn yn darparu cyfle

ehangach o bwysigrwydd rhanbarthol / cenedlaethol trwy ailddatblygu'r safle oddeutu 15 erw y mae 375m ohono'n wynebu Afon Menai yn uniongyrchol.

Yn dilyn hynny, byddai'r cyfle hwn i ailddatblygu yn cefnogi ailddatblygu ystad y brifysgol yn ehangach.

Dywedodd rhanddeiliaid yn y sector ynni (yn benodol **National Grid, Western Power Distribution ac SP Energy Networks**) fod cysylltu seilwaith ynni newydd â'r rhwydwaith yn fwyaf heriol fel arfer yng Ngorllewin Cymru (e.e. Ceredigion ac Aberystwyth) a Gogledd-ddwyrain Cymru (e.e. Ynys Môn) am nifer o resymau, gan gynnwys capasiti a hygyrchedd, ond nid dim ond am y rhesymau hynny.

Cyfeiriodd **SP Energy Networks** (SPEN) at eu rhaglen 'Gwefru / Charge' fel prosiect nodedig gan ei fod yn ceisio cyflymu'r broses o gysylltu a chynllunio seilwaith gwefru cost isel trwy ddatblygu a defnyddio dulliau arloesol o gysylltu a rheoli'r defnydd o Gerbydau Trydan¹³.

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Amlygodd yr ymgynghoriad â **Dinas-Ranbarth Bae Abertawe** eu 11 prosiect [strategol] allweddol¹⁴. Mae'r rhanbarth yn symud ymlaen yn dda â'r prosiectau hyn ac wedi sicrhau'r buddsoddiad £1.3 biliwn y mae ei angen. Yn gyffredinol, nod y buddsoddiad hwn yw rhoi hwb economaidd £1.8bn i'r rhanbarth a chreu 10,000 o swyddi newydd o ansawdd uchel.



¹³ https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2018/11/charge_spenn_2018_nic_resubmission_redacted.pdf

¹⁴ <https://www.bargenddinesigbaeabertawe.cymru/>

Fel y dangosir yn y llun uchod, mae'r 11 prosiect yn canolbwyntio ar y canlynol:

- **Pentref Gwyddorau Bywyd a Llesiant** – wedi'i leoli yn Llynnoedd Delta, Llanelli ac yn cyfuno cyfleusterau ymchwil gwyddorau bywyd a datblygu busnes uwch, gyda chanolfan hamdden, tai gofal ychwanegol a gofal nyrsio o'r radd flaenaf;
- **Campysau Gwyddorau Bywyd a Llesiant** – cydweithrediad rhwng Prifysgol Abertawe a phartneriaid y GIG i ddarparu cyfleusterau ymchwil a datblygu datblygedig;
- **Ardal Ddigidol Dinas a Glannau Abertawe** – gan gynnwys cynlluniau ar gyfer arena dan do ddigidol â 3,500 o seddau, pentref digidol i gefnogi twf busnesau technoleg, a chefnogaeth i gwmnïau cychwynnol a BBaChau yng Nghampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant;
- **Yr Egin** – ail gam y prosiect hwn sy'n darparu ar gyfer y sectorau digidol a chreadigol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin;
- **Ffatri'r Dyfodol** – bydd y Ffatri ASTUTE yng Nghastell-nedd Port Talbot yn Ganolfan Ragoriaeth ag offer o'r radd flaenaf, sy'n manteisio ar arbenigedd o safon fyd-eang y Coleg Peirianeg ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd y prosiect yn datblygu, arddangos a chyflymu'r defnydd o dechnolegau gweithgynhyrchu deallus aflonyddol.
- **Gwyddor Ddur** – creu Canolfan Arloesedd Dur Genedlaethol newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan ddarparu cyfleuster mynediad agored i'r gadwyn gyflenwi dur a metel. Mae'r prosiect yn cynnwys ymagwedd gydweithrediadol â Sefydliad Dur a Metelau Prifysgol Abertawe;
- **Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer** – ceisio darparu cartrefi deallus, carbon isel sy'n effeithlon o ran ynni ar draws y prifddinas-ranbarth. Bydd hyn yn cynnwys rhaglen o ddatblygiadau adeiladu o'r newydd, ôl-osod adeiladau sydd eisoes yn bodoli a chefnogi datblygiad y gadwyn gyflenwi leol;
- **Seilwaith Digidol** – ceisio cefnogi economi ddigidol ffyniannus, gan gysylltu â phrosiectau Bargen Ddinesig eraill. Bydd y prosiect yn arwain at wasanaethau digidol cyhoeddus a phreifat ffeibr llawn o ansawdd uchel mewn ardaloedd trefol, yn ogystal â gwella cwmbras y rhwyngwyd mewn ardaloedd gwledig yn sylweddol;
- **Menter Sgiliau a Doniau** – ceisio darparu ateb rhanbarthol i adnabod a darparu gofynion sgiliau a hyfforddi holl brosiectau'r Fargen Ddinesig;
- **Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf (CENGs)** – wedi'i leoli yng Nghanolfan Dechnoleg Bae Abertawe ym Maglan ac yn darparu lle swyddfa hyblyg, o ansawdd uchel i gwmnïau cychwynnol. Bydd y ganolfan hefyd yn bencadlys ar gyfer CENGs, gan ddarparu adnoddau dadansoddeg data sy'n gallu trawsffurfio syniadau yn wasanaethau a datrysiadau masnachol;
- **Ardal Forol Doc Penfro** – creu cyfleuster saernïo, profi ac adleoli peirianeg forol o'r radd flaenaf a chanolbwyntio ar ddarparu safle profi ar gyfer y diwydiant ynni'r môr.

Amlygodd gwybodaeth a gafwyd ynglŷn â **Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru** ddyheadau i Ganolbarth Cymru gael ei ystyried yn rhanbarth economaidd ar wahân ac i brosesau cynllunio trafniadaeth a defnydd tir fod yn gydgysylltiedig â hyn. Mae'r Partneriaeth wedi amlinellu gweledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru, sy'n datgan:


Erbyn 2033, bydd Canolbarth Cymru yn:

“Rhanbarth mentrus ac unigryw sy'n chyflawni twf economaidd a ysgogir gan arloesedd, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog”.

Ystyrir y bydd y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni trwy'r amcanion a'r rhaglenni canlynol:



Ynghyd â'r Rhaglenni Blaenoriaeth canlynol:



I grynhui, mae'r blaenoriaethau cynllunio neu ddefnydd tir allweddol sy'n dod i'r amlwg yn rhan o'r Adroddiad Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Rhanbarth Canolbarth Cymru (Aecom, Rhagfyr 2018) yn cynnwys:

- **Sgiliau a Gweithlu** – Canolfannau Prifysgol yng Nghanolbarth Cymru;
- **Arloesedd** – Canolfannau menter ac arloesedd (Canolfannau Gigabit) mewn aneddiadau allweddol gyda phecynnau buddsoddi mewn cyfleoedd strategol wedi'u seilio ar sector, gan gynnwys gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth a'r bio-economi;
- **Canolbarth Cymru Cystadleuol a Chynaliadwy** – Buddsoddi mewn safleoedd cyflogaeth strategol allweddol;
- **Busnes** – Dynodi Ardal Fenter aml-safle yng Nghanolbarth Cymru gyda phecyn buddsoddi a chymorth ar gyfer amaethyddiaeth, ffermio a bwyd;
- **Ynni** – Uwchraddio capasiti'r rhwydwaith a chyfleoedd yn ymwneud â throï gwastraff yn ynni / gwres a phŵer cyfunedig, yn ogystal â rhaglen fuddsoddi ranbarthol mewn ynni adnewyddadwy ac ymchwilio ymhellach i ymarferoldeb yr economi hydrogen;
- **Canolbarth Cymru sydd wedi'i Gysylltu'n Dda ac sy'n Unigryw yn Ddiwylliannol** – Parhau i ddatblygu band eang cyflym iawn a gwib yng Nghanolbarth Cymru gyda phecynnau cefnogi ehangach;
- **Lle** – Buddsoddiad strategol gan gynnwys cyfleusterau cynadledda newydd a modern, canolfan bwyd a diod ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, datblygu atyniadau twristiaeth strategol o werth uchel, gwella'r gwestai a'r llety ymwelwyr a gynigir a buddsoddi mewn porthladdoedd;
- **Trafnidiaeth** – Cysylltedd gan gynnwys llwybrau strategol trawsffiniol a chysylltedd ymlaen. Blaenoriaethau ar gyfer coridorau ffyrdd a rheilffyrdd strategol a phecynnau cludo nwyddau a logisteg. Yn ogystal, mae mesurau teithio llesol a chysylltedd gwledig wedi cael eu hamlygu.

Er bod y blaenoriaethau hyn yn gosod y cyfeiriad cyffredinol ar gyfer Canolbarth Cymru, nid yw'r gwaith hyd yma wedi amlygu prosiectau neu gynigion penodol a fydd yn cael eu datblygu wrth i'r Bartneriaeth symud ymlaen.

Amlygodd trafodaethau â **Dŵr Cymru** yr angen am waith trin dŵr gwastraff (WWTW) newydd yn ardal Abertawe sy'n gysylltiedig â chynlluniau twf yr ardal ac a ddylai fwydo i CDSau.

Dywedodd rhanddeiliaid yn y sector ynni (yn benodol **National Grid, Western Power Distribution ac SP Energy Networks**) fod cysylltu seilwaith ynni newydd â'r rhwydwaith yn fwyaf heriol fel arfer yng Ngorllewin Cymru (e.e. Ceredigion ac Aberystwyth) a Gogledd-ddwyrain Cymru (e.e. Ynys Môn) am nifer o resymau, gan gynnwys capasiti a hygyrchedd, ond nid dim ond am y rhesymau hynny.

De-ddwyrain Cymru

Amlygodd trafodaethau â **Dŵr Cymru** yr angen am waith trin dŵr gwastraff (WWTW) newydd yn ardal Merthyr sy'n gysylltiedig â chynlluniau twf yr ardal ac a ddylai fwydo i CDSau.

Amlygodd trafodaethau â **Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd** fod y Metro yn sbardun allweddol ar gyfer cynllunio defnydd tir yng Ngogledd a De-ddwyrain Cymru¹⁵. Mae cyfle i gysylltu cymunedau a mannau cyflogaeth yn well ac adfywio tir o amgylch cyfres o ganolfannau.

Yn ogystal â'r Metro, mae'r rhanbarth wrthi'n diffinio prosiect o hyd, gyda'r bwriad o gyflawni'r nodau allweddol canlynol:

- 25,000 o swyddi newydd;
- Cynnydd 5% mewn gwerth ychwanegol gros (GVA); a
- Throsoleddu £4bn o fuddsoddiad sector preifat.

Mae'n debygol y bydd y pwyslais yn y rhanbarth yn cynnwys Ymchwil a Datblygu, Seilwaith Rhanbarthol a'r her gyffredinol sy'n gysylltiedig â'r ffordd draddodiadol o weithio. Mae'r rhanbarth yn canolbwyntio ar gydfuddsoddi, gan gysylltu arian preifat ag arian cyhoeddus.

Yn ystod y drafodaeth, soniwyd am y prosiectau / cynigion cyffredinol canlynol sydd wrthi'n cael eu datblygu:

- **'Metro +'** – a fydd yn ceisio cysylltu'r Metro ar lefel leol â chynlluniau symudedd a seilwaith allweddol yn y dyfodol (e.e. cerbydau trydan);
- **Cronfa Buddsoddi Tai** – a fydd yn ceisio annog datblygu a chyflymu safleoedd anodd yn y rhanbarth;
- **Buddsoddi Digidol** – sicrhau bod y rhwydwaith yn addas i'r dyfodol (e.e. 5G); a
- **Safleoedd / Eiddo** – a fydd yn edrych ar gaffael eiddo a'r potensial ar gyfer datblygu tybiannol (gan weithio gyda phartneriaid yn y sector preifat).

Mae'r rhanbarth o'r farn bod CDSau yn cynnig cyfle i amlygu'r safleoedd iawn ac ystyried twf cynhwysol, ac ni fyddai eisiau i'r FfDC orfodi gormod, o reidrwydd, mewn ffordd 'o'r brig i lawr'. Yn lle hynny, credai y dylai'r FfDC ddarparu fframwaith polisi lefel uwch ac annog gwaith rhanbarthol ar elfennau allweddol, fel tai strategol a chyflogaeth.

Unwaith eto, yn fwy cyffredinol, amlygodd y drafodaeth fod arweinyddiaeth a newid diwylliant, yn enwedig yn y dinas-ranbarthau, yn allweddol i lwyddiant, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd i ddod. Byddai hyn yn helpu i alluogi symudiad tuag at ddarparu seilwaith ac annog ffordd o feddwl sy'n cynnwys elfen o risg i wireddu'r budd mwyaf.

¹⁵ https://llyw.cymru/metro?_ga=2.114894798.892035585.1557737906-613136503.1479996126

2.4 SWOT a data sy'n cefnogi datblygu polisïau

Mae'r data sylfaenol wedi helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob rhanbarth FfDC sy'n cefnogi'r broses o ddatblygu polisïau'r FfDC. Mae hyn wedi galluogi Arup i ddefnyddio gwybodaeth ystadegol i helpu i amlygu'r materion rhanbarthol a gwledig a'r ardaloedd gofodol y dylai polisïau'r FfDC ganolbwyntio arnynt.

Mae'r data a gyflwynwyd yn llawn yn Atodiad B wedi llywio'r broses dilysu a dadansoddi data a gynhaliwyd yn yr Adroddiadau SWOT Rhanbarthol a Gwledig. Mae hyn wedi llywio'r ymagwedd at ddiffinio'r materion y dylai polisïau'r FfDC ganolbwyntio arnynt.

Er bod dadansoddiad SWOT llawn wedi'i ddarparu yn yr Adroddiadau SWOT Rhanbarthol a Gwledig, rhoddir crynodeb isod:

2.4.1 SWOT Rhanbarthol

Mae dadansoddi'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau a ystyriwyd ledled Cymru yn helpu i amlygu'r hyn y gallai'r FfDC ei wneud i warchod, hwyluso a gwella datblygiad. Mewn rhai achosion, nid oes thema cynllunio gofodol i helpu i fynd i'r afael â chryfder, gwendid, cyfle neu fygythiad a amlygwyd – ac yn lle hynny PPW yw'r lle priodol i osod polisi cynllunio cenedlaethol. Felly, argymhellir bod y FfDC yn ystyried y deg disgwyliad canlynol:

Gallai'r FfDC amlygu...

1. ... ardaloedd cyffredinol lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn fynych, er mwyn helpu i hyrwyddo a gwarchod yr iaith.
2. ... safleoedd cyflogaeth strategol y presennol a'r dyfodol ac unrhyw welliannau y mae eu hangen i annog twf / buddsoddiad.
3. ... seilwaith a blaenoriaethau trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, sy'n adlewyrchu'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol.
4. ... datblygiadau ynni presennol a newydd ochr yn ochr â chefnogi'r seilwaith cysylltiedig sy'n hanfodol i'w darparu.
5. ... canolfannau strategol ar gyfer datblygu mwynau a gwastraff ac ardaloedd ehangu a gynlluniwyd.
6. ... risgiau ac anghenion cynlluniau rheoli traethlin a chynlluniau morol.
7. ... lle mae'r diwydiant amaethyddol yn gyffredin a lle mae angen ystyried cefnogi'r sector a'i helpu i arallgyfeirio
8. ... ardaloedd amgylcheddol a warchodir ac sydd o werth mawr, gan ategu'r polisi cynllunio ar lefel genedlaethol fel y cyfarwyddir gan PPW.
9. ... gwarchod a chefnogi asedau treftadaeth sy'n bwysig yn genedlaethol.
10. ... safleoedd datblygu strategol i helpu i gyflwyno tir sydd ar gael ac yn hyfyw.

I helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn, dylai'r FfDC:

- a) Osod gweledigaeth eglur ar gyfer y Gymru a garem;
- b) Atal problemau rhag digwydd neu waethygu;
- c) Cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r amrywiaeth a'r amrywiadau rhwng pobl Cymru;
- ch) Annog cydweithredu a phartneriaethau traws-sector; ac
- d) Ystyried natur gydgyssylltiedig themâu polisi a chefnogi ymagwedd systemau cyfan at gynllunio.

2.4.2 SWOT Gwledig

Mae dadansoddi'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau a ystyriwyd ledled Cymru yn helpu i amlygu'r hyn y gallai'r FfDC ei wneud i warchod, hwyluso a gwella datblygiad mewn ardaloedd gwledig. Mewn rhai achosion, nid oes thema cynllunio gofodol i helpu i fynd i'r afael â chryfder, gwendid, cyfle neu fygythiad a amlygwyd – ac yn lle hynny PPW yw'r lle priodol i osod polisi cynllunio cenedlaethol. Felly, argymhellir bod y FfDC yn ystyried y deg disgwyliad canlynol ar gyfer ardaloedd gwledig:

Gallai'r FfDC amlygu...

1. ... ardaloedd twf gwledig / ymylol ym mhob un o'r tri Rhanbarth yng Nghymru, gan ymateb i'w nodweddion a'u hanghenion amrywiol;
2. ... ardaloedd lle mae twristiaeth yn gryfder / cyfle a sicrhau bod y buddsoddiad mewn seilwaith yn cyd-fynd â hynny;
3. ... ardaloedd cyffredinol lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn fynych, er mwyn helpu i hyrwyddo a gwarchod yr iaith wrth symud ymlaen, gan ystyried ymagwedd bolisi amrywiol ar draws y rhanbarthau;
4. ... ardaloedd gwendid, angen a chyfle i gefnogi gwelliannau cysylltedd digidol mewn ardaloedd gwledig.
5. ... cyfleoedd gofodol i gryfhau cysylltiadau rhwng prifysgolion, eu cryfderau allweddol a meysydd cyflogaeth – a helpu i sicrhau bod seilwaith ar gael i gefnogi sgiliau strategol a chyfleoedd cyflogaeth.
6. ... seilwaith a blaenoriaethau trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol allweddol sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig, yn enwedig trwy ddefnyddio ymagwedd strategol tuag at ddarparu seilwaith cerbydau trydan, gan sicrhau nad yw ardaloedd gwledig ar eu colled a bod y buddsoddiad yn gyfartal.
7. ... a chefnogi datblygiadau ynni presennol a newydd ochr yn ochr â chefnogi'r seilwaith cysylltiedig sy'n hanfodol ar gyfer darparu a thwf yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig.
8. ... lle mae'r diwydiant amaethyddol yn gyffredin a lle mae angen ystyried cefnogi'r sector fel nodwedd allweddol o'r economi wledig.

9. ... y prif ardaloedd ac asedau sydd mewn perygl o lifogydd, ynghyd â chyfleoedd strategol i gefnogi dyheadau'r Cynllun Morol a'r Cynlluniau Rheoli Traethlin ar lefel genedlaethol.
10. ... lle y gellir mynd i'r afael â maes polisi orau ar raddfa ranbarthol, gallai Cynlluniau Datblygu Strategol amlygu ardaloedd neu safleoedd ar gyfer datblygiad / twf yn y dyfodol, yn ogystal â phrosiectau neu fentrau strategol. Gallai Cynlluniau Datblygu Strategol hefyd amlygu sectorau allweddol ac unrhyw ofynion buddsoddi penodol. Yn arbennig, gallai Cynlluniau Datblygu Strategol ystyried cynllunio mwynau a gwastraff ar raddfa ranbarthol.

Mae'r angen am bolisïau cynllunio ychwanegol / gwledig y tu hwnt i'r hyn y mae'r system gynllunio eisoes yn ei gynnig yn gyfyngedig. Fodd bynnag, i helpu'r system gynllunio i barhau i gefnogi datblygiad mewn ardaloedd gwledig ac ategu / galluogi cyfleoedd ar gyfer canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol, dylai'r FfDC helpu i sicrhau:

- a) Bod tai ac aneddiadau newydd mewn ardaloedd gwledig wedi'u cysylltu â chyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyflogaeth trwy ddulliau cynaliadwy o drafnidiaeth. Byddai diffinio ardaloedd twf gan ystyried y seilwaith sy'n angenrheidiol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.
- b) Bod asedau twristiaeth, yr amgylchedd naturiol a chyrchfannau ymwelwyr wedi'u cysylltu â dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth, a bod mynediad rhwydd iddynt ar droed, ar feic, ar drafnidiaeth gyhoeddus ac yna mewn car. Byddai amlygu lleoliadau strategol ar gyfer twf a lle mae angen seilwaith hanfodol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.
- c) Bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i gwarchod, gan gydnabod amrywiadau ar draws y rhanbarthau, trwy amlygu ardaloedd blaenoriaeth a pholisïau a fyddai'n helpu i atal colli iaith a diwylliant Cymru ac yn cynnig cyfleoedd i'w cynyddu (e.e. cyfleusterau addysg ac ardaloedd cyflogaeth wedi'u cysylltu'n dda i helpu i gadw pobl ifanc leol neu bobl leol oedran gweithio);
- ch) Bod seilwaith digidol yn cael ei flaenoriaethu mewn ardaloedd gwledig er mwyn hwyluso gweithio o gartref a lleihau'r angen i deithio mewn car, yn ogystal â chefnogi cydlyniant cymunedol a mynediad at addysg ar-lein. Byddai amlygu meysydd blaenoriaeth ar gyfer seilwaith digidol gan ystyried anghenion cenedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.
- d) Bod cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig wedi'u cysylltu'n well trwy seilwaith priodol a chreu lleoedd yn briodol, gan gysylltu cymunedau a chyfleusterau addysg â meysydd cyflogaeth. Byddai amlygu safleoedd a chyfleusterau strategol a'u cysylltu â meysydd twf a lle mae angen seilwaith hanfodol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.
- dd) Bod seilwaith trafnidiaeth yn cysylltu pob grŵp o bobl, ymwelwyr a busnesau â safleoedd, cyfleusterau a gwasanaethau allweddol, ar yr un pryd â defnyddio ymagwedd strategol at ddiogelu'r rhwydwaith at y dyfodol gyda seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig. Byddai amlygu llwybrau strategol ac ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer seilwaith newydd ac arloesol, gan

ystyried anghenion cenedlaethol a rhanbarthol, yn cefnogi datblygu cynaliadwy.

- e) Bod datblygu ynni'n cael ei alluogi mewn ffordd integredig, gan ystyried cymunedau lleol a modelau / buddiannau a berchenogir gan y gymuned, capasiti'r grid trydan, hygyrchedd, a rheoli tir ar y lan ac ar y môr. Gallai amlygu ardaloedd strategol gan ystyried y cysylltiadau â chymunedau a seilwaith / capasiti'r grid gefnogi datblygu cynaliadwy.
- f) Bod y diwydiant amaethyddol a datblygu'n cael eu cefnogi trwy ymagwedd hyblyg at gynllunio a fydd yn helpu i alluogi mathau a ffurfiau priodol o arallgyfeirio yn y dyfodol. Byddai amlygu ardaloedd gwledig lle y byddai arallgyfeirio'n briodol a lle mae angen seilwaith hanfodol i gefnogi arallgyfeirio ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.
- ff) Bod datblygiadau ar y tir a'r môr yn cael eu hystyried yn rhan o ymagwedd systemau cyfan at gynllunio, gan ystyried anghenion a'r effeithiau tebygol ar bobl, yr economi a'r amgylchedd mewn ffordd integredig.

I helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn, dylai'r FfDC:

1. Osod gweledigaeth eglur ar gyfer ardaloedd gwledig ledled Cymru yn y dyfodol;
 2. Atal problemau rhag digwydd neu waethygu;
 3. Cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r amrywiaeth a'r amrywiadau rhwng pobl Cymru;
- ch) Annog cydweithredu a phartneriaethau traws-sector; ac
4. Ystyried natur gydgysylltiedig themâu polisi a chefnogi ymagwedd systemau cyfan at gynllunio mewn ardaloedd gwledig.

2.4.3 Diffinio ardaloedd gofodol

Mae'r data hefyd wedi llywio'r ymagwedd at ddiffinio ardaloedd gofodol, fel yr amlinellir yn yr adrannau canlynol o'r adroddiad hwn.

3 Diffinio ‘Mawr’

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r ymchwil ystyried y ffordd orau y dylai'r FfDC ddiffinio categorïau amrywiol safleoedd, defnyddiau ac ardaloedd gofodol ehangach i helpu i gefnogi'r broses o ddatblygu polisiau'r FfDC o ran:

1. Safleoedd cyflogaeth mawr;
2. Safleoedd manwerthu/masnachol mawr;
3. Seilwaith/safleoedd/ardaloedd cynhyrchu ynni mawr; a
4. Chynlluniau trafndiaeth arfaethedig mawr.

Fel yr amlinellir isod ac a ddangoswyd trwy'r ymarfer casglu data, mae'r ymagweddau at ddiffinio'r rhain yn amrywio ledled Cymru ar lefel Awdurdod Lleol a dim ond gwaith ar raddfa strategol gyfyngedig (e.e. Strategaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru¹⁶) a wnaed hyd yma, sydd wedi archwilio ymhellach y ffyrdd y gellir diffinio categorïau penodol.

Mae hefyd yn bwysig gwahaniaethu rhwng yr ymagweddau ystadegol mwy traddodiadol at ddiffinio safleoedd, defnyddiau ac ardaloedd gofodol, a chydabod y ffiniau ffug y mae hyn yn gallu eu creu o ganlyniad i'r raddfa ofodol y mae'r data ar gael arni. Archwilir hyn ymhellach isod.

3.1 Safleoedd Cyflogaeth

Gall y ffordd y mae safleoedd ‘mawr’ neu ‘strategol’ yn cael eu diffinio amrywio yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac nid oes safbwynt na diffiniad unigol wedi'i fabwysiadu i ddisgrifio safle cyflogaeth ‘mawr’.

Mae'r ymarfer casglu data a gynhaliwyd yn rhan o'r astudiaeth, ochr yn ochr â'r gweithdai rhanbarthol, yn dangos yr amrywiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Mae Atodiad B yn darparu tabl a map ar gyfer safleoedd cyflogaeth, sy'n dangos bod yr ymagwedd at ddiffinio safleoedd cyflogaeth ‘strategol’ yn amrywio ledled Cymru. Mae'r ceisiadau am ddata i Awdurdodau Cynllunio Lleol a'r adolygiad o Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) wedi dangos amrywiadau yn y ffordd y mae safleoedd cyflogaeth mawr yn cael eu hamlygu. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae CDLlau yn amlygu ‘Safleoedd Strategol’ yn hytrach na ‘Mawr’, ond mae'r rhain yn amrywio o safleoedd fel Parc Teifi (11ha) yn Aberteifi i safle Porth y Gogledd (100ha) yn Sir y Fflint.

At hynny, gofynnwyd i'r rhai a fynychodd y gweithdai a gynhaliwyd ledled Cymru ddewis yr hyn y bydden nhw'n ei ystyried yn safle cyflogaeth ‘mawr’ yn ôl maint y safle (darparwyd rhai enghreifftiau rhanbarthol i roi cyd-destun)¹⁷. Crynhoir canlyniadau'r ymarfer hwn isod:

¹⁶ [https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/LDP-evidence-base/Regional-Employment-Land-Strategy-for-North-Wales-\(PDF-3MB-new-window\).pdf](https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/LDP-evidence-base/Regional-Employment-Land-Strategy-for-North-Wales-(PDF-3MB-new-window).pdf)

¹⁷ Gweler yr Adroddiadau Gweithdy am ragor o wybodaeth.

- Gogledd Cymru – roedd consensws bod safle cyflogaeth ‘mawr’ yn fwy na 10ha;
- Canolbarth a De-orllewin Cymru – roedd consensws cyffredinol bod safle cyflogaeth ‘mawr’ yn fwy na 10ha, er bod rhai yn teimlo y gallai safleoedd llai na 10ha fod yn fawr; a
- De-ddwyrain Cymru – roedd consensws cyffredinol bod safle cyflogaeth ‘mawr’ yn fwy nag 20ha, ac roedd rhai o’r mynychwyr yn credu y dylai safleoedd mwy yn unig gael eu hystyried yn fawr e.e. 50ha neu fwy.

Yn ddiddorol, gofynnwyd i ACLlau ddarparu rhestrau o’r hyn yr oedden nhw’n ei ystyried yn safleoedd cyflogaeth strategol yn eu hardal leol, ac roedd pob un ond dau wedi ymateb gyda safleoedd llai na 10ha. Roedd eu rhesymau dros gynnwys y safleoedd a amlygwyd yn cynnwys lefel y lle llawr, arwynebedd cyffredinol y safle a’u dynodiad fel canol tref, ond nid oedd cysondeb amlwg rhwng ACLlau o ran diffinio safleoedd manwerthu neu fasnachol ‘mawr’.

Roedd y gweithdai a’r ceisiadau am wybodaeth i ACLlau hefyd yn profi’r gwahanol ffyrdd yr oedd y rhanddeiliaid yn diffinio ‘mawr’. Cydnabyddir bod graddfa / arwynebedd safle yn ffordd fras o amlygu safleoedd mawr a bod nifer o ffactorau eraill y mae angen eu hystyried wrth ddiffinio portffolio o safleoedd ar draws rhanbarth (e.e. nifer y swyddi, canran y boblogaeth weithio, sectorau diwydiant amlwg a natur y gyflogaeth / gwaith). Fodd bynnag, cytunir bod graddfa / maint yn brocsi rhesymol ar raddfa genedlaethol. Ar raddfa ranbarthol, mae cyfle i wahaniaethu rhwng anghenion mwy penodol neu leol, sbardunwyr y farchnad a/neu nodweddion cyflogaeth.

Felly, ystyrir bod ymagwedd ranbarthol at ddiffinio safleoedd ‘Mawr’ yn bwysig, a gallai’r FfDC gyfarwyddo cynllunio ar lefel ranbarthol i wneud mwy o waith yn y maes hwn. Er enghraifft, mae Awdurdodau Gogledd Cymru¹⁸ eisoes wedi ymgymryd â darn o waith sydd wedi amlygu Safleoedd Cyflogaeth Strategol ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

Yn ogystal ag archwilio maint, ac felly potensial, safleoedd cyflogaeth presennol ac a ddyrannwyd, cynhaliodd astudiaeth Gogledd Cymru adolygiad manwl o sectorau blaenoriaeth (e.e. Gweithgynhyrchu Uwch), anghenion y sectorau hyn, a ffactorau ehangach sy’n debygol o ddylanwadu ar ymyriadau a’r galw am safleoedd strategol yn y dyfodol (e.e. ardaloedd marchnad dai, ardaloedd teithio i’r gwaith, llif nwyddau a gwasanaethau, rhaglenni sector blaenoriaeth ac ati). Amlygodd / categoreiddiodd yr astudiaeth safleoedd ar sail ‘Strategol yn Rhanbarthol’ ac ‘Is-Ranbarthol’. Mae’r holl safleoedd Strategol yn Rhanbarthol rhwng 10ha a 100ha o faint, ac mae’r safleoedd Is-ranbarthol yn llai na 10ha.

¹⁸ [http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/LDP-evidence-base/Regional-Employment-Land-Strategy-for-North-Wales-\(PDF-3MB-new-window\).pdf](http://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/LDP-evidence-base/Regional-Employment-Land-Strategy-for-North-Wales-(PDF-3MB-new-window).pdf)

Byddai ymagwedd o'r fath at ddiffinio safleoedd 'Mawr' neu 'Strategol' ledled Cymru yn feichus iawn ac ni fyddai'n briodol i ddibenion y gwaith ymchwil hwn.


Fodd bynnag, mae'r gwaith a wnaed yng Ngogledd Cymru yn rhoi cyd-destun defnyddiol wrth geisio diffinio'r hyn sy'n 'Fawr' ac amlygu'r cyfle i'r FfDC gyfarwyddo CDSau i ystyried yr angen am safleoedd cyflogaeth ar raddfa ranbarthol, yn ogystal â'u maint a'r blaenoriaethau ar eu cyfer.

Yng nghyd-destun Gogledd Cymru, dylid dibynnu ar y 'Strategaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru' (2014) fel darn allweddol o waith i lywio cynllunio rhanbarthol ledled Gogledd Cymru, a ddylai lywio CDLlau a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn y dyfodol.


O ystyried y data a gasglwyd, canlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ac astudiaethau a gynhaliwyd mewn mannau eraill, dylai safle cyflogaeth 'Mawr' neu 'Strategol' fod yn fwy na **10ha o faint** at ddibenion y FfDC a'i sylfaen dystiolaeth – ar lefel genedlaethol. I helpu i ystyried amrywiadau a gwahaniaethau rhanbarthol, dylai'r FfDC gyfarwyddo strategaeth tir cyflogaeth ranbarthol, neu rywbeth tebyg, ar draws y tri rhanbarth trwy ei CDSau.

Dangosir y diffiniad hwn yn Ffigurau 3 i 5 isod:


Ffigur 3 Safleoedd Cyflogaeth Gogledd Cymru sy'n fwy na 10ha



Ffigur 4 Safleoedd Cyflogaeth Canolbarth a De-orllewin Cymru sy'n fwy na 10ha



Ffigur 5 Safleoedd Cyflogaeth De-ddwyrain Cymru sy'n fwy na 10ha



3.2 Safleoedd Manwerthu / Masnachol

Wrth geisio diffinio'r categori hwn, teimlwn fod angen ystyried 'canolfannau' manwerthu / masnachol yn ogystal â safleoedd.

Mae Atodiad B yn rhoi tabl a map o ardaloedd manwerthu a masnachol.

Mae diffyg tystiolaeth bod ardaloedd manwerthu / masnachol yn cael eu hystyried ar lefel fwy na graddfa leol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o gysondeb ledled Cymru yn y ffordd y mae ACLlau yn ystyried graddfa / pwysigrwydd ardaloedd gofodol manwerthu / masnachol yn seiliedig ar niferoedd / lle cyflogaeth.

Ar ôl adolygu pob CDLl yng Nghymru, mae'n amlwg bod yr ymagwedd at ddiffinio ardaloedd manwerthu / masnachol allweddol ar lefel ofodol yn amrywio'n fawr, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol a maint / natur yr ardal wasanaeth (e.e. Caerdydd o gymharu â Phowys).

Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi ceisio diffinio canolfannau manwerthu / masnachol 'mawr' trwy'r tasgau canlynol:

1. Amlygu gwybodaeth mewn CDLlau – adolygu CDLlau i gasglu gwybodaeth sylfaenol am sut mae'r safleoedd / canolfannau hyn yn cael eu diffinio ar lefel leol (gweler Atodiad B);
2. Coladu data'r Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) – a gasglwyd yn ôl Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) dau ddigid y Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer y codau hynny yr ystyrir eu bod yn berthnasol i fanwerthu / masnach. Yna, fe'i mapiwyd ar lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) i amlygu ardaloedd / canolfannau allweddol o weithgarwch cyflogaeth / busnes (gweler isod).
3. Profi mewn gweithdai – cyflwynwyd y data hwn yn ofodol mewn digwyddiadau Gweithdy Rhanbarthol trwy'r gweithgarwch 'Dot Gludiog', er mwyn trafod a helpu i egluro'r rhesymeg wrth wraidd y diffiniad traddodiadol wedi'i seilio ar gyflogaeth, yn ogystal â chadarnhau ble mae'r canolfannau allweddol wedi'u lleoli'n ofodol o fewn rhanbarthau. Canolbwyntiodd yr ymarfer gweithdy ar argraffiadau cychwynnol y mynychwyr o ddata cyflogaeth a fapiwyd yn ofodol o gymharu â'u canfyddiad o'u prif ganolfannau manwerthu / masnachol yr ystyrir eu bod yn bwysig i weithrediad eu rhanbarth (gweler isod).

Yng Ngogledd Cymru, roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod y map yn Ffigur 6 yn dangos orau ble mae canolfannau gweithgarwch manwerthu / masnachol allweddol wedi'u lleoli (sydd â lefelau cyflogaeth o fwy na 2,000). Mae hyn yn awgrymu bod y canolfannau manwerthu / masnachol canlynol yn fwyaf cyffredin yn y rhanbarth:

- Caernarfon;
- Llangefni;
- Bangor;
- Conwy;
- Llandudno;
- Bae Colwyn;
- Y Rhyl / Ardal Ddiwydiannol Tir Llwyd;
- Yr Wyddgrug;
- Glannau Dyfrdwy;

- Rhuthun; a
- Wrecsam / Ystad Ddiwydiannol Wrecsam.

Roedd rhai mynychwyr hefyd yn teimlo y dylai rhai ardaloedd llai gael eu hystyried yn ardaloedd gweithgarwch manwerthu / masnachol ‘strategol’ yng Ngogledd Cymru. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Mostyn;
- Porthmadog; a
- Pwllheli;
- Thrawsfynydd.

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, roedd y mynychwyr o’r farn bod y map yn Ffigur 7 yn dangos orau ble mae canolfannau gweithgarwch manwerthu / masnachol allweddol wedi’u lleoli (sydd â lefelau cyflogaeth o fwy na 1,000).

Mae hyn yn awgrymu bod y canolfannau manwerthu / masnachol canlynol yn fwyaf cyffredin yn y rhanbarth:


- Aberystwyth;
- Hwlfordd;
- Y Trallwng;
- Caerfyrddin;
- Y Drenewydd;
- Llanelli;
- Llandrindod;
- Abertawe; a
- Llanfair-ym-Muallt;
- Chastell-nedd.
- Aberhonddu;

Yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd y mynychwyr o’r farn bod y map yn Ffigur 4 8 yn dangos orau ble mae canolfannau gweithgarwch manwerthu / masnachol allweddol wedi’u lleoli. Nid oedd y rhanddeiliaid yn gallu cytuno ar wahaniaethu rhwng lefelau cyflogaeth o fwy na 2,000 a mwy na 3,000.


Mae hyn yn awgrymu bod y canolfannau manwerthu / masnachol canlynol yn fwyaf cyffredin yn y rhanbarth:

- Trefynwy;
- Caerffili;
- Y Fenni;
- Pontypridd;
- Glynebwy;
- Pen-y-bont ar Ogwr;
- Merthyr Tudful;
- Caerdydd;
- Pont-y-pŵl;
- Casnewydd; a
- Y Coed-duon;
- Chas-gwent.
- Cwmbrân;


Ffigur 5 Manwerthu / Masnachol Gogledd Cymru



Ffigur 6 Manwerthu a Masnachol Canolbarth a De-orllewin Cymru



Ffigur 7 Manwerthu a Masnachol De-ddwyrain Cymru



Cydnabyddir bod cyflogaeth yn y sectorau manwerthu a masnachol yn un ffordd yn unig o sefydlu safleoedd neu ganolfannau ‘manwerthu a masnachol allweddol’. Fodd bynnag, at ddibenion yr astudiaeth hon ac wrth geisio amlygu’r safleoedd / canolfannau hyn ar raddfa genedlaethol neu ranbarthol, mae Arup o’r farn bod y data’n darparu procsi da. Mae’r dadansoddiad wedi arwain at restr hir o hyd at 15 o leoliadau yng Ngogledd Cymru, 11 o leoliadau yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, a 13 o leoliadau yn Ne-orllewin Cymru sy’n cynnig rôl fanwerthu / masnachol yn yr economi leol.

O ystyried hyn yng nghyd-destun y FfDC, mae’n bwysig bod y canolfannau / safleoedd hyn yn cael eu mireinio ar sail y rôl y mae’r canolfannau / safleoedd allweddol a amlygwyd yn ei chwarae yn y Rhanbarthau FfDC. O ystyried graddfa a natur rhai o’r safleoedd / canolfannau a amlygwyd, mae’n amlwg er y gallent gyflawni rôl yn y rhanbarth, na fyddai’r rôl honno yn un rhanbarthol o reidrwydd. Mae’r data gan ACLlau a thrafodaethau â rhanddeiliaid wedi helpu i ddangos y dylai canolfan neu safle ‘mawr’ fod yn un sydd â swyddogaeth ranbarthol – sef un sy’n strategol ei natur.

Er mwyn cynorthwyo i ddatblygu’r FfDC a helpu polisi gofodol cenedlaethol neu ranbarthol i ganolbwyntio ar safleoedd / canolfannau sydd â swyddogaeth strategol, ystyrir bod y canlynol yn flaenoriaeth ym mhob rhanbarth:

Tabl 6 Canolfannau / Safleoedd Manwerthu a Masnachol Mawr Rhanbarthol

Rhanbarth	Safleoedd a Chanolfannau Manwerthu / Masnachol Mawr		
Gogledd Cymru	1. Bangor	2. Cysylltiadau trawsffiniol â Chaer	3. Wrecsam
Canolbarth a De-orllewin Cymru	1. Aberystwyth 2. Caerfyrddin	3. Hwlfordd Y Drenewydd	4. Abertawe

De-ddwyrain Cymru	1. Y Fenni	3. Caerdydd	5. Merthyr Tudful
	2. Pen-y-bont ar Ogwr	4. Cwmbrân	6. Casnewydd

3.3 Gorsafoedd Cynhyrchu

Wrth geisio diffinio gorsafoedd cynhyrchu ‘Mawr’, mae’n bwysig defnyddio meini prawf Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), sef trothwy sefydledig sy’n diffinio prosiectau sy’n bwysicach na lefel leol.

Felly, mae Arup yn cynnig bod ‘Gorsafoedd Cynhyrchu Mawr’ yn cael eu diffinio fel y rhai hynny sydd â chapasiti gosodedig o fwy na 10MW.

3.4 Cynlluniau Trafnidiaeth

O ystyried eu graddfa, eu rôl wrth gysylltu cymunedau â chyflogaeth a gwasanaethau, a’u heffaith ar yr economi, cymdeithas, diwylliant a’r amgylchedd, gellid dadlau y dylai pob math o gynlluniau trafndiaeth gael eu hystyried yn ‘Fawr’ lle maent yn cynnwys ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd / harbyrau neu feysydd awyr newydd.

Yn nodweddiadol, mae’r mathau hyn o seilwaith trafndiaeth yn strategol eu natur ac yn darparu swyddogaeth ranbarthol neu genedlaethol.

Yn ogystal, mae rhaglenni cenedlaethol neu CDLlau fel arfer yn amlygu cynlluniau trafndiaeth o’r math hwn neu’n ymrwymo iddynt fel rhai ‘strategol’ eu natur.

Mae adolygiad o ddogfennau polisi allweddol, gan gynnwys y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP) a CDLlau, wedi amlygu cynlluniau o’r fath, a ddisgrifir yn aml fel rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol.

Mae hyn yn cael ei gynllunio ar lefel genedlaethol neu leol, ac felly ystyrir bod diffiniad ‘mawr’ yn cael ei gymhwyso ledled Cymru.

Fel y cyfryw, mae’r ymagwedd at ddiffinio cynlluniau trafndiaeth ‘mawr’ fel a ganlyn:

Tabl 7 Cynlluniau Trafnidiaeth Mawr

Math o Gynllun Trafnidiaeth	Diffiniad o ‘Fawr’
Ffyrdd Arfaethedig	Cefnffyrdd a amlygir yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol neu WIIP 2018 Cynlluniau Strategol a amlygir mewn CDLlau
Rheilffyrdd Arfaethedig	Pob rheilffordd / cyfnewidfa cludo nwyddau newydd
Porthladdoedd / Harbyrau Arfaethedig	Pob porthladd / harbwr arfaethedig
Meysydd Awyr Arfaethedig	Pob datblygiad arfaethedig sy’n gysylltiedig â maes awyr

4 Diffinio a Mapio Aneddiadau Allweddol

4.1 Strategaethau Gofodol CDLlau

Yn aml, un o elfennau allweddol strategaeth ofodol CDLl yw'r diffiniad o hierarchaeth aneddiadau, ac mae lefelau datblygu'n cael eu dyrannu i aneddiadau yn gymesur â'u maint (nifer yr aelwydydd) a'u safle yn yr hierarchaeth¹⁹.

Yn nodweddiadol, mae ACLlau yn diffinio aneddiadau allweddol trwy amlinellu hierarchaeth aneddiadau y CDLl yn eu cynlluniau datblygu mabwysiedig diweddaraf. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cyd-fynd â Chynllun Gofodol Cymru (WSP) 2008, sy'n rhagweld prif anheddiad allweddol, aneddiadau allweddol eraill (treffi neu ganolfannau) a chlystyrau (grwpiau o drefi) fel canolbwynt i dwf a buddsoddiad priodol a arweinir gan y cynllun (gan nodi y bydd y FfDC yn disodli WSP).

Felly, mae Treffi neu Brif Aneddiadau Allweddol yn cael eu hamlinellu mewn CDLlau yn aml, gan gynrychioli'r hyn y mae'r ACLl yn credu ei fod yn anheddiad allweddol ar gyfer ei ardal leol. Mae rhai ACLlau yn mynd ymhellach i ddiffinio canolfannau gwasanaeth is-ranbarthol, trefol a lleol²⁰.

O ystyried y cyfarwyddyd cenedlaethol trwy WSP, mae'r mathau hyn o aneddiadau allweddol, felly, yn adlewyrchu ardaloedd sy'n bwysig yn lleol neu'n rhanbarthol.

I helpu i ddosbarthu aneddiadau'n hierarchaeth aneddiadau, mae aneddiadau fel arfer yn cael eu categorio yn ôl eu maint (sef nifer yr aelwydydd, yn nodweddiadol) a thrwy ystyried eu swyddogaeth o ran y gwasanaethau a'r cyfleusterau maen nhw'n eu darparu. Yn rhan o'r broses CDLl, mae ACLlau yn aml yn ystyried anghenion seilwaith, cyfyngiadau amgylcheddol a chyfyngiadau eraill a allai ddylanwadu ar allu anheddiad i ymdopi â thwf a buddsoddiad.

Rhoddir y rhestr lawn o aneddiadau allweddol fel y'u diffiniwyd gan ACLlau yn Atodiad B (gweler Prif Aneddiadau, wedi'u trefnu yn ôl rhanbarth ledled Cymru).

Dylid nodi nad yw rhai Cynghorau yn amlygu prif aneddiadau yn nodweddiadol, o ystyried eu swyddogaeth fel Dinas a Sir (e.e. Abertawe).

Mae Ffigur 9 isod yn dangos y data hwn.

¹⁹ Fel y diffinnir yn ddefnyddiol yn CDLl Powys (Ebrill 2018)

²⁰ Fel y'r amlinellir yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (Gorffennaf 2017)

Ffigur 8 Aneddiadau Allweddol a Amlygwyd mewn CDLlau




4.2 Poblogaeth

Dylid cydnabod bod diffinio aneddiadau allweddol ar raddfa ofodol uwchlaw'r lefel leol yn arwain at gymhlethdodau sy'n ymwneud â natur amrywiol rhanbarthau'r FfDC, yn ogystal â swyddogaeth wahanol aneddiadau yn y rhanbarthau hynny.

Er mwyn osgoi'r amrywiadau hynny a darparu cysondeb yn genedlaethol, gellid helpu i ddiffinio aneddiadau allweddol trwy ddangos aneddiadau ledled Cymru yn ôl poblogaeth. Mae map wedi cael ei gynhyrchu i ddangos yr aneddiadau mwyaf poblog ledled Cymru gan ddefnyddio data'r Arolwg Ordnans (ONS)²¹ (gweler Ffigur 10).

Ffigur 9 Poblogaeth



²¹ Amcangyfrifon Poblogaeth yr ONS (2016)

4.3 Yr Ymagwedd Arfaethedig

Yr hyn sy'n amlwg yw pan fydd Ffigur 10 yn cael ei gymharu â Ffigur 9, bod cysylltiad eglur rhwng diffiniadau'r CDLl a'r mannau lle mae'r cymunedau wedi'u canolbwyntio.

Esbonnir hyn i raddau helaeth gan y ffaith bod diffiniadau'r CDLl yn ystyried maint aneddiadau (fel arfer nifer yr aelwydydd) yn ogystal â'u swyddogaeth o ran y gwasanaethau a'r cyfleusterau maen nhw'n eu darparu.

Dangosodd trafodaethau â rhanddeiliaid fod cefnogaeth gref i'r ymagwedd draddodiadol a ddefnyddir gan ACLlau i ddiffinio aneddiadau allweddol ar y sail uchod, sy'n fodd o ddarparu cysondeb yn genedlaethol ac ymagwedd lle y gellir ystyried amrywiadau o ran graddfa a swyddogaeth yn lleol.

Fodd bynnag, o ran y FfDC, mae achos cryf y dylai gyfarwyddo CDSau i adlewyrchu'r aneddiadau allweddol rhanbarthol / lleol ar gyfer twf a buddsoddiad, tra dylai'r FfDC (sy'n pennu strategaeth ofodol genedlaethol) ganolbwyntio ar dwf a buddsoddiad strategol ar lefel genedlaethol / rhanbarthol.

Mae hyn yn gofyn am ymagwedd gymysg lle mae'r prif aneddiadau a amlygwyd mewn CDLlau (sef bron 90) yn cael eu dosbarthu yn ôl poblogaeth – gyda graddau / hierarchaeth ar draws pob rhanbarth. At ddibenion yr astudiaeth hon, argymhellir bod y 30 anheddiad â'r graddau uchaf yn ôl poblogaeth yn cael eu dewis o'r rhestr.

Fel y cyfryw, mae Arup yn credu y dylai'r FfDC ddefnyddio'r diffiniad o Aneddiadau Allweddol a gymhwysir gan ACLlau wrth gynhyrchu eu CDLlau, gan ystyried yr angen i amlygu swyddogaeth strategaeth ofodol strategol y FfDC – lle mae'r 30 mwyaf yn ôl poblogaeth yn cael eu cymhwyso. Bydd hyn yn helpu i ganolbwyntio twf a buddsoddiad strategol ar aneddiadau sy'n bwysig yn genedlaethol / rhanbarthol, ac yna dylai CDSau ystyried y rhain a phrif aneddiadau eraill sydd â swyddogaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol / lleol.


Mae'r Aneddiadau Allweddol y cynigir y dylai'r FfDC ganolbwyntio ar ddatblygu ei bolisiau twf a buddsoddiad strategol ar eu cyfer wedi'u hamlinellu ym mhob rhanbarth yn

Tabl 7 mewn teip du trwm ac wedi'u dangos yn y Ffigurau cysylltiedig.
Awgrymir bod y rhai na ddangosir isod mewn teip du trwm yn cael eu hystyried
ymhellach mewn CDSau.

Tabl 8 Aneddiadau Allweddol


Rhanbarth	Aneddiadau Allweddol			Nifer
Gogledd Cymru	- Abergele Bangor - Bodelwyddan Bwcle Bae Colwyn Cei Connah - Conwy - Deganwy/Llanrhos	Y Fflint - Treffynnon - Bae Cinnel Llandudno - Cyffordd Llandudno - Llanfairfechan - Llanrwst - Yr Wyddgrug	- Penmaenmawr - Bae Penrhyn / Penrhynside a Thowyn - Queensferry - Saltney Shotton Wrecsam	8

Ffigur 10 Aneddiadau Allweddol Gogledd Cymru




Rhanbarth	Aneddiadau Allweddol			Nifer
Canolbarth a De-orllewin Cymru	- Aberaeron Aberystwyth - Rhydaman - Y Bala - Aberhonddu - Llanfair-ym-Muallt - Aberteifi Caerfyrddin - Dolgellau - Abergwaun ac Wdig Hwlfordd - Y Gelli Gandryll - Trefyclo - Llanbedr Pont Steffan	- Llandrindod Llandysul Llanelli - Llanfair Caereinion - Llanfyllin - Llanidloes - Llanwrtyd - Machynlleth Aberdaugleddau a Neyland - Trefaldwyn - Castell-nedd - Castellnewydd Emlyn - Trefdraeth	- Y Drenewydd - Penfro - Doc Penfro Port Talbot - Llanandras - Rhaeadr - Saundersfoot - Tyddewi Abertawe - Dinbych-y-pysgod - Tregaron - Y Trallwng - Ystradgynlais	6

Ffigur 11 Aneddiadau Allweddol Canolbarth a De-orllewin Cymru



Rhanbarth	Aneddiadau Allweddol			Nifer
De-ddwyrain Cymru	• Aberdâr	• Caerdydd	• Pencoed	16
	• Y Fenni	• Cas-gwent	• Pont-y-pŵl	
	• Abertyleri	• Cwmbrân	• Pontypridd	
	• Bargoed	• Glynebwy	• Porthcawl	
	• Y Barri	• Llantrisant (gan gynnwys Tonysguboriau)	• Y Pil/Mynydd Cynffig/Gogledd Corneli	
	• Y Coed-duon	• Maesteg	• Rhisga / Pontymister	
	• Blaenafon	• Merthyr Tudful	• Tredegar	
	• Pen-y-bont ar Ogwr	• Trefynwy		
	• Brynmawr	• Casnewydd		
	• Caerffili			

Ffigur 12 Aneddiadau Allweddol De-ddwyrain Cymru



5 Diffinio Ardaloedd Gwledig

5.1.1 Trosolwg

Mae'n bwysig nodi, fel y crynhoir yn adran 2.4.2 yr adroddiad hwn ac y cyflwynir yn llawn yn yr Adroddiad SWOT Gwledig, bod yr angen am bolisiâu cynllunio ychwanegol / gwledig penodol y tu hwnt i'r hyn y mae'r system gynllunio eisoes yn ei gynnig yn gyfyngedig.

Fodd bynnag, i helpu'r system gynllunio i barhau i gefnogi datblygiad mewn ardaloedd gwledig ac ategu / galluogi cyfleoedd ar gyfer canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol, gallai'r FfDC flaenoriaethu a chanolbwyntio ar feysydd polisi penodol – gydag amrywiadau rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i dîm ymchwil Arup ystyried y ffordd orau o adnabod yr ardaloedd gwledig y gallai'r FfDC ganolbwyntio ar ddatblygu polisiâu ar eu cyfer ar wahanol raddfeydd gofodol. Mae cyfraniad Paul Milbourne, sy'n arbenigwr ar gynllunio a pholisi gwledig a Phennaeth yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi bod yn amhrisiadwy yn yr ymarfer hwn.

Mae sut i ddiffinio ardaloedd gwledig wedi peri penbleth i ymchwilwyr gwledig a llunwyr polisi gwledig ers tro. O ran polisi, mae diffiniadau wedi canolbwyntio'n bennaf ar nodweddion a swyddogaethau ffisegol mannau gwledig, gan gynnwys y defnydd helaeth o dir, dwysedd poblogaeth isel, mathau trechaf o gynhyrchu economaidd, a phellter oddi wrth ganolfannau trefol.

Mae Bwletinau Ystadegau Gwladol wedi pwysleisio'r canlynol yn gyson:

1. Nid oes diffiniad unigol o ardaloedd gwledig; yn hytrach, ceir ystod o gategoreiddiadau a allai fod yn briodol mewn cyd-destunau penodol;
2. Yn benodol, bydd angen diffiniadau gwahanol wrth ystyried “pobl wledig”, “tir gwledig” a “gweithgareddau gwledig”; ac
3. Fe allai fod diffiniadau gwahanol o ardaloedd gwledig yn dibynnu ar b'un a ydym eisiau ystadegau disgrifiadol lle y gallwn dderbyn rhywfaint o niwlogrwydd neu ddulliau cyllido lle na allwn dderbyn hynny.

Mae'r adrannau isod yn helpu i esbonio'r gwahanol ymagweddau y gellid eu defnyddio.

5.1.2 Defnydd o dir


Gall dosbarthiadau defnydd tir fel preswyl, diwydiannol, masnachol, amaethyddol, coedwigaeth, tir comin, ac ati, helpu i ddiffinio natur ardal. Gallai defnydd tir hefyd gynnwys tir sy'n destun dynodiadau statudol fel Parciau Cenedlaethol neu ardaloedd a warchodir yn amgylcheddol.

Yn aml, gall tir amaeth fod yn ffordd ddefnyddiol o bennu p'un a yw ardal wedi'i lleoli yng nghefn gwlad agored yn bennaf, sy'n ddiffiniad cul o “wledig”.

Mae oddeutu 85% o'r tir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth neu'n dir comin.

Mae Ffigur 11 isod yn dangos tir amaeth a'i ansawdd ledled Cymru.

Ffigur 13 Tir Amaeth




5.1.3 Dosbarthiad gwledig-drefol

Datblygwyd y diffiniad gwledig/trefol a'r dosbarthiad awdurdod lleol diweddaraf yn dilyn Cyfrifiad Poblogaeth 2011 i gynhyrchu categorïddiad gwledig/trefol wedi'i seilio ar ystadegau swyddogol²². Mae Ardaloedd Cynnyrch yn cael eu hystyried yn 'drefol' os cawsant eu dyrannu i ardal adeiledig yn 2011 â phoblogaeth o 10,000 o bobl neu fwy, tra bod yr holl Ardaloedd Cynnyrch sy'n weddill yn cael eu dosbarthu'n 'wledig'. Yna, is-rennir y parthau trefol a gwledig yn chwe math cyffredinol o aneddiadau. Mae'r dosbarthiad hefyd yn categorïddio Ardaloedd Cynnyrch yn seiliedig ar gyd-destun, hynny yw, p'un a yw ardal amgylchynol ehangach Ardal Gynnyrch benodol yn brin ei phoblogaeth neu'n llai prin ei phoblogaeth. Mae Ffigur 12 isod yn dangos hyn:

Ffigur 14 Dosbarthiad Gwledig-drefol

Rural-Urban Classification for Lower Layer Super Output Areas (LSOAs), 2011



Rural-urban classification

Urban major conurbation	Rural town and fringe
Urban minor conurbation	Rural town & fringe in a sparse setting
Urban city and town	Rural village
Urban city & town in a sparse setting	Rural village in a sparse setting

The Rural-Urban Classification is a Government Statistical Service product developed by the Office for National Statistics; the Department for Environment, Food and Rural Affairs; the Department for Communities and Local Government; and the Welsh Assembly Government, in collaboration with Sheffield and Nottingham Universities.

Source: Office for National Statistics licensed under the Open Government Licence v.3.0.

Contains OS data © Crown copyright 2017

5.1.4 MALIC

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)²³ yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Fe'i datblygwyd i amlygu amddifadedd lluosog ar lefel ardal fach ym mhob rhan o Gymru (gan gynnwys ardaloedd gwledig).

Gellir defnyddio'r Mynegai MALIC cyffredinol (a'r graddfeydd ar gyfer pob un o'r meysydd) i amlygu ardaloedd lle y ceir amddifadedd lluosog cymharol uchel ym mhob rhan o Gymru.

Mae'r ardaloedd mwy gwledig yn tueddu i fod yn llai diffreintiedig. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig, mae pobl ddifreintiedig yn tueddu i fod yn fwy gwasgareddig yn ddaeryddol nag mewn ardaloedd trefol.

Gellir defnyddio'r data dangosydd sylfaenol (e.e. hawl i gael budd-daliadau cysylltiedig ag incwm) i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig. Er bod ambell ardal yn unig o amddifadedd lluosog uchel yn ein diffiniad o Gymru Wledig, mae dadansoddi'r dangosyddion MALIC sylfaenol yn ôl math o anheddiad yn dangos bod nifer sylweddol o bobl ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd gwledig o hyd.

Mae ymchwil²⁴ yn dangos ei bod yn anodd cytuno ar fethodoleg ar gyfer mesur ac adrodd ar 'amddifadedd gwledig'. Un o'r prif feirniadaethau yw bod mesurau amddifadedd yn gallu cuddio pocedi bach o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig, sy'n bwysig o ystyried bod amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn aml yn bodoli ar raddfa strydoedd yn hytrach na chymdogaethau cyfan.

Mae llawer o nodweddion anfantais ac amddifadedd yr un fath ym mhobman. Mae pobl mewn cymunedau gwledig yn gallu dioddef llawer o'r un problemau â phobl sy'n profi anfantais neu amddifadedd mewn ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae rhai sylwebyddion yn dadlau bod rhai materion yn gallu cael effaith anghymesur ar bobl mewn ardaloedd gwledig, e.e. mynediad at wasanaethau a chyfleusterau a phellter i'r gwaith.

Mae maes Mynediad at Wasanaethau MALIC (a'r dangosyddion ynddo) yn rhoi syniad defnyddiol o faint o amser y mae'n ei gymryd i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn gyrraedd gwasanaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd beunyddiol. Mae ardaloedd gwledig yn fwy diffreintiedig o ran Mynediad at Wasanaethau nag ardaloedd mwy trefol.

Mae dosbarthiad LSOAs yn ôl cwintelau'r maes Mynediad at Wasanaethau yn wahanol iawn i rai'r MALIC cyffredinol. Mae mwyafrif helaeth (88.4%) y LSOAs hynny a ddosbarthwyd yn Eraill Llai Prin eu Poblogaeth a 98% o'r rhai a ddosbarthwyd yn Eraill Mwyaf Prin eu Poblogaeth, yn yr 20% mwyaf diffreintiedig o ardaloedd yn y maes mynediad at wasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn cymryd mwy o amser i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn gyrraedd gwasanaethau na'r rhai sy'n byw mewn trefi mawr. Nid oes unrhyw LSOA yn y dosbarthiadau 'Eraill Llai Prin eu Poblogaeth' ac 'Eraill

²³ <https://gweddi.gov.wales/statistics-and-research/welsh-index-multiple-deprivation/?skip=1&lang=cy>

²⁴ <https://gov.wales/docs/statistics/2015/150812-wimd-2014-guide-analysing-deprivation-rural-areas-revised-en.pdf>

Mwyaf Prin eu Poblogaeth' yn y 60% lleiaf diffreintiedig ar gyfer y maes
Mynediad at Wasanaethau.

5.1.5 Maint aneddiadau a Dosbarthiad Ystadegau Gwladol

Mae dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn helpu i ddiffinio ardaloedd gwledig gan ei fod yn ceisio dangos rhywfaint o gyfoeth y patrwm anheddu. I wneud hyn, mae'n rhannu ardaloedd bach yng Nghymru (a elwir yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is neu LSOAs) yn ôl math o anheddiad a chyd-destun.

Mae'r tri math o anheddiad ar gyfer LSOAs yng Nghymru fel a ganlyn:

- Trefi mawr – aneddiadau â phoblogaeth o fwy na 10,000 o bobl.
- Trefi bach – llai na 10,000 o bobl, ac yn cynnwys cyrion aneddiadau mawr.
- Eraill – aneddiadau llai sydd â dwysedd tai is na threfi bach, a'r aneddiadau lleiaf oll ac anheddau anghysbell.

Diffinnir tri chyd-destun ar gyfer Cymru a Lloegr;

- Y cyd-destun ardal fwyaf prin ei phoblogaeth. Mae gan yr ardaloedd hyn nifer fach iawn o bobl fesul cilomedr sgwâr o fewn radiws o 10km, 20km a 30km. Mae angen i ardal fod o fewn yr 20 y cant o ardaloedd mwyaf prin eu poblogaeth yng Nghymru a Lloegr ar bob un o'r tair graddfa i gael ei dosbarthu yn y cyd-destun ardal fwyaf prin ei phoblogaeth.
- Cytrefi. Mae'r dosbarthiad yn diffinio'r canolfannau poblogaeth mwyaf oll fel cytrefi. Mae'r cyfrifiad yn ystyried y ffordd y mae dwysedd anheddu uchel iawn yn cael ei gynnal ar draws ardal eang. Nid oes unrhyw gytrefi yng Nghymru.
- Ystyrir bod pob ardal arall yn y cyd-destun Ardal Lai Prin ei Phoblogaeth.

Mae'r 3 math o anheddiad a'r 2 gategori cyd-destun yn cyfuno i ffurfio chwe chategori ar gyfer Cymru:

Cyd-destun Ardaloedd Llai Prin eu Poblogaeth:

1. Trefi Mawr: aneddiadau yn yr ardaloedd mwy poblog sydd â phoblogaeth o 10,000 o bobl o leiaf. Mae hyn yn cynnwys ein dinasoedd mwyaf (Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe), a'r prif aneddiadau yn Ne-ddwyrain Cymru ac ar hyd arfordir Gogledd Cymru, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.
2. Trefi Bach: Trefi yw'r rhain yn yr ardaloedd mwy poblog sydd â llai na 10,000 o bobl. Mae'r categori hwn yn cynnwys trefi bach – er enghraifft Brynbuga, Dinbych, Biwmares a Threfynwy – yn ogystal ag ardaloedd cyrion trefol o amgylch yr aneddiadau mawr.
3. Eraill: Mae'r rhain yn cynnwys pentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig yn yr ardaloedd llai prin eu poblogaeth o Gymru.

Cyd-destun Ardaloedd Mwyaf Prin eu Poblogaeth:

4. Trefi Mawr: aneddiadau yn yr ardaloedd llai poblog sydd â phoblogaeth o 10,000 o bobl o leiaf. Mae hyn yn cynnwys pedair tref fawr yn unig – Caerdybi, y Drenewydd, Aberystwyth a Chaerfyrddin.
5. Trefi Bach: Trefi yw'r rhain yn yr ardaloedd llai poblog sydd â llai na 10,000 o bobl.


6. Eraill: Mae'r rhain yn cynnwys pentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig yn yr ardaloedd mwyaf prin eu poblogaeth o Gymru.

Er nad oes diffiniad safonol o'r hyn yr ystyrir ei fod yn wledig, o ran Cymru, awgrymir mai'r lle arferol i ddechrau fyddai diffinio trefol fel y trefi bach a mawr yn y cyd-destun ardaloedd llai prin eu poblogaeth, a bod y categorïau eraill yn wledig, h.y.:

- Trefol: Trefi Mawr Llai Prin eu Poblogaeth a Threfi Bach Llai Prin eu Poblogaeth; a
- Gwledig: Pob dosbarthiad heblaw am Drefi Mawr Llai Prin eu Poblogaeth a Threfi Bach Llai Prin eu Poblogaeth.

Yn ôl y diffiniad hwn, ystyrir bod trefi fel Caergybi, y Drenewydd, Aberystwyth a Chaerfyrddin yn wledig. Ystyrir bod Brynbuga, Dinbych, Biwmares a Threfynwy yn drefol. Mae Ffigur 13 isod yn dangos hyn:

Ffigur 15 Dosbarthiad Aneddiadau



5.1.6 Tuag at ddiffiniad newydd

Wrth ystyried sut i ddiffinio ardaloedd gwledig o safbwynt cynllunio gofodol changach, gwnaethom archwilio ymagwedd aml-amrywiolyn a geisiodd ystyried / mapio ystod o ddata a chymhwyso pwysoliadau priodol er mwyn amlygu ardaloedd gwledig ac ardaloedd ymylol ar draws Rhanbarthau'r FfDC.

Defnyddiwyd y gweithdai rhanbarthol i'n helpu i ddeall safbwyntiau'r mynychwyr ynglŷn â'r hyn sy'n diffinio neu'n gwneud ardal 'wledig'. Gofynnwyd i'r mynychwyr ystyried ystod eang o ddangosyddion posibl a dewis y rhai yr oedden nhw'n teimlo y byddent yn diffinio ardaloedd gwledig yng Nghymru orau. Mae Tabl 8 yn crynhoi'r 5 prif ddangosydd yn ôl rhanbarth.

Tabl 9 Prif Ddangosyddion o'r Gweithdai

Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru
MALIC Mynediad at Wasanaethau	Dwysedd Poblogaeth / Teneurwydd Poblogaeth Drefol	Dwysedd Poblogaeth / Teneurwydd Poblogaeth Drefol
Dwysedd Poblogaeth / Teneurwydd Poblogaeth Drefol	Tir Amaeth	Sectorau Cyflogaeth Gwledig
Tir Amaeth	Sectorau Cyflogaeth Gwledig	MALIC Mynediad at Wasanaethau
Pellter teithio i'r gwaith / ardaloedd teithio i'r gwaith	Pellter teithio i'r gwaith / ardaloedd teithio i'r gwaith	Tir Amaeth
Sectorau Cyflogaeth Gwledig	Pellter i gefnffordd a chwmpas band eang	Pellter i gefnffordd

Ar ôl ystyried canlyniadau'r ymarfer hwn a sut y gallai'r dangosyddion hyn helpu i ddiffinio ardaloedd gwledig, aethom ati i ddeall manylion y data fel ffactor allweddol wrth bennu pa mor ddefnyddiol y byddai pob set ddata. Gellir gweld ein canfyddiadau mewn perthynas â hyn yn Nhabl 9.

Tabl 10 Ffynonellau Data ar gyfer Diffiniad Gwledig

Data	Graddfa Ofodol	Cymhwysiad
MALIC Mynediad at Wasanaethau	LOA	✓
Tir Amaeth	Graddfa Fach – diffinnir yn ôl Gradd	✓
Dwysedd Poblogaeth / Teneurwydd Poblogaeth Drefol	LSOA	✓
Sectorau Cyflogaeth Gwledig	Wedi'i hatal trwy BRES ac ar gael trwy Awdurdodau Lleol yn unig	✗
Pellter teithio i'r gwaith / ardaloedd teithio i'r gwaith	LSOA	✓
Pellter i gefnffordd	Dd/B – angen mesur â llaw	✗
Cwmpas band eang	Cod post – diffinnir yn ôl cyflymder	✗

Roedd mapiau a gynhyrchwyd gan Arup a oedd yn dangos y data uchod mewn troeshaenau yn gymhleth ac yn annealladwy, o ystyried y mathau amrywiol o raddfeydd a data meintiol a oedd yn cael eu cyflwyno. Yn unigol, maen nhw'n cynrychioli gwahanol ffactorau gwledig neu ymylol, ond, gyda'i gilydd, maen nhw'n cyfleu darlun economaidd-gymdeithasol cymhleth sy'n mynd y tu hwnt i ddiben yr ymarfer wrth geisio diffinio ardaloedd gwledig.

5.1.7 Crynodeb

Mae'r defnydd o dir yn ffordd gyfyngedig o ddiffinio "ardaloedd gwledig". Yr ymagwedd fwyaf cyffredin yw ystyried presenoldeb tir amaeth neu ddefnyddiau eraill sy'n gysylltiedig â chefn gwlad agored. Mae oddeutu 85% o'r tir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth neu'n dir comin.

Mae dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) o fathau o aneddiadau a chyd-destun yn darparu offeryn ar gyfer dadansoddi ystadegol, y gellir ei ddefnyddio gydag amrywiaeth o ffynonellau Ystadegau Gwladol. Mae bron 65% o boblogaeth Cymru yn byw mewn aneddiadau sy'n cynnwys o leiaf 10,000 o bobl. Mae oddeutu 20% o boblogaeth Cymru yn byw mewn ardaloedd a ddosberthir yn rhai gwledig yn fras – (hynny yw, y tu allan i Drefi Mawr Llai Prin eu Poblogaeth neu Drefi Bach Llai Prin eu Poblogaeth). O'r rhain, mae oddeutu 29% yn byw mewn Trefi Mawr Mwyaf Prin eu Poblogaeth neu Drefi Bach Mwyaf Prin eu Poblogaeth.

Mae maint aneddiadau yn ffordd arall fwy bras o ddiffinio ardaloedd gwledig. Mae oddeutu 68% o boblogaeth Cymru yn byw mewn aneddiadau sy'n cynnwys o leiaf 10,000 o bobl (h.y. Trefi Mawr yn y cyd-destun Llai Prin eu Poblogaeth neu Fwyaf Prin eu Poblogaeth).

Mae mynediad at wasanaethau yn ddangosydd cryf o b'un a yw lle neu gymuned yn wledig, ond nid yw'n ddangosydd digon cryf ynddo'i hun i ddiffinio ardaloedd at ddibenion y FfDC.

Ar ôl ystyried y setiau data / dangosyddion amrywiol y gellid eu defnyddio, nid yw'r un ohonynt yn darparu dewis amgen defnyddiol i'r rhai a ddefnyddiwyd eisoes yn y dadansoddiadau ystadegol a gynhaliwyd, gan gynnwys MALIC.

Gallai'r FfDC elwa o ymagwedd cynllunio gofodol a defnyddio cyfuniad o agweddau gwledig, ond byddai'n fwyaf buddiol i lunwyr polisi trwy gymhwyso categorïddiad trefol, ymylol a gwledig i gynorthwyo â datblygu polisiâu ac ystyriaethau cynllunio.

Dull yr ONS yw'r ffordd fwyaf cyson, cadarn ac adnabyddus o ddiffinio ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, pe byddai'r FfDC eisiau mynd ymhellach i ddiffinio ardaloedd gwledig at ddibenion llunio polisiâu gwledig, gallai newid y pwyslais o "wledig" i "wledig" ac "ymylol" fod yn ffordd ddefnyddiol o wahaniaethu rhwng gwahanol raddfeydd gwledigrwydd o safbwynt polisi cynllunio.

Byddai hyn yn helpu i ystyried anghenion gwahanol fathau o ardaloedd ledled Cymru, a'r effeithiau arnynt, yn seiliedig ar eu maint, eu swyddogaeth a'u lleoliad. Byddai hyn yn helpu i gydnabod bod rhannau o Gymru yr ystyrir eu bod yn wledig ar hyn o bryd, yn ôl diffiniad ystadegol, yn amrywio o ran eu perthynas

ag ardaloedd trefol (gwledig neu ymylol eu natur) a'u gwahanol swyddogaethau fel aneddiadau (trefol neu drefi gwledig â gwahanol lefelau teneurwydd poblogaeth).

Trwy ddefnyddio 3 math o aneddiadau a 2 categori cyd-destun yr ONS yn bennaf (wedi'u cyfuno i ffurfio chwech ar gyfer Cymru);

Gallai ardaloedd trefol gynnwys...

1. Cyd-destun Ardaloedd Llai Prin eu Poblogaeth – Trefi Mawr: aneddiadau yn yr ardaloedd mwy poblog sydd â phoblogaeth o 10,000 o bobl o leiaf. Mae hyn yn cynnwys ein dinasoedd mwyaf (Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe), a'r prif aneddiadau yn Ne-ddwyrain Cymru ac ar hyd arfordir Gogledd Cymru, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam.
2. Cyd-destun Ardaloedd Mwyaf Prin eu Poblogaeth – Trefi Mawr: aneddiadau yn yr ardaloedd llai poblog sydd â phoblogaeth o 10,000 o bobl o leiaf. Mae hyn yn cynnwys pedair tref fawr yn unig – Caergybi, y Drennewydd, Aberystwyth a Chaerfyrddin.

Gallai ardaloedd ymylol gynnwys...

3. Cyd-destun Ardaloedd Llai Prin eu Poblogaeth – Trefi Bach: Trefi yw'r rhain yn yr ardaloedd mwy poblog sydd â llai na 10,000 o bobl. Mae'r categori hwn yn cynnwys trefi bach traddodiadol – er enghraifft Brynbuga, Dinbych, Biwmares a Threfynwy – yn ogystal ag ardaloedd cyrion trefol o amgylch yr aneddiadau mawr.
4. Cyd-destun Ardaloedd Llai Prin eu Poblogaeth – Eraill: Mae'r rhain yn cynnwys pentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig yn yr ardaloedd llai prin eu poblogaeth o Gymru.

Gallai ardaloedd gwledig gynnwys...


5. Cyd-destun Ardaloedd Mwyaf Prin eu Poblogaeth – Trefi Bach: Trefi yw'r rhain yn yr ardaloedd llai poblog sydd â llai na 10,000 o bobl.
6. Cyd-destun Ardaloedd Mwyaf Prin eu Poblogaeth – Eraill: Mae'r rhain yn cynnwys pentrefi, pentrefannau ac anheddau gwasgaredig yn yr ardaloedd mwyaf prin eu poblogaeth o Gymru.

Byddai'r ymagwedd hon yn gofyn i dîm ystadegau Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei set ddata 2013 fel y'i cyflwynir yn Ffigur 13, ond rydym wedi cynnwys map yn Ffigur 15 i ddangos categorïau Trefol, Ymylol a Gwledig fel y disgrifir uchod. Er cyfleustra, mae Tabl 10 yn cyflwyno ac yn disgrifio'r categorïau hyn.

Tabl 11 Diffinio Ardaloedd Trefol, Ymylol a Gwledig

Category	Definition
Trefol	Dinasoedd a threfi mawr mewn ardaloedd poblog a llai poblog, sydd â phoblogaeth o 10,000 o bobl o leiaf.
Ymylol	Trefi bach yn yr ardaloedd mwy poblog sydd â phoblogaeth o lai na 10,000 o bobl ac aneddiadau eraill mewn ardaloedd llai prin eu poblogaeth.
Gwledig	Trefi bach mewn ardaloedd llai poblog sydd â phoblogaeth o lai na 10,000 ac aneddiadau eraill yn yr ardaloedd mwyaf prin eu poblogaeth o Gymru.

Ffigur 16 Map sy'n Dangos Ardaloedd Gwledig



6 Rhanbarthau Cydffiniol yn Lloegr

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r ystyriaethau allweddol ar gyfer y FfDC o ran Rhanbarthau cydffiniol yn Lloegr.

Mae'r nod llesiant cenedlaethol o fod yn 'gyfrifol yn fyd-eang', sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried materion ac effeithiau y tu allan i Gymru, sy'n cynnwys Lloegr.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Arup roi ystyriaeth briodol i brosiectau / cynigion o fewn cynlluniau datblygu, cynlluniau a rhaglenni rhanbarthol neu bolisi, strategaeth a buddsoddiad yn Lloegr sy'n berthnasol i Rhanbarthau'r FfDC.

Perthnasodd a materion trawsffiniol oedd un o'r pynciau allweddol a godwyd ac a drafodwyd yn ystod y Gweithdai Rhanddeiliaid. Mae hyn ychwanegu pwys at yr angen i'r FfDC roi ystyriaeth ofalus i'r cydberthnasau hyn wrth ddatblygu polisiau yng Nghymru a allai effeithio ar Rhanbarthau cydffiniol yn Lloegr – a thu hwnt.

6.1 Materion trawsffiniol â blaenoriaeth

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) Argraffiad 10 (2018) yn tanlinellu pa mor bwysig yw cydnabod goblygiadau trawsffiniol cynlluniau, ac yn ceisio hyrwyddo cydweithredu trawsffiniol e.e. trwy ddatblygu strategaethau cynlluniau datblygu a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol. Rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd ymagwedd strategol a hirdymor at lunio cynlluniau.

Mewn Gweithdai Rhanbarthol, gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod ac yna gosod dot gludiog o fewn rhes i gynrychioli eu dewis o ran pa wahanol faterion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sydd bwysicaf fel mater trawsffiniol i'w rhanbarth. Cafodd y cyfranogwyr ddewis tri o saith opsiwn (ond gallent awgrymu rhai eraill i'w hystyried).

Mae'r canlyniadau, a ddangosir yn llawn yn yr Adroddiadau Gweithdy Rhanbarthol, yn dangos bod pob un o'r gwahanol opsiynau wedi'u dewis unwaith o leiaf, ond bod consensws amlwg bod rhai mathau o faterion trawsffiniol yn bwysicach nag eraill i'r cyfranogwyr ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru.

At ddibenion yr adroddiad hwn, rhoddwyd cyfanswm i ddangos y dewisiadau. Gwnaed hyn i geisio helpu Llywodraeth Cymru i wybod pa faterion polisi trawsffiniol sydd bwysicaf yn y rhanbarth. Disgrifir hyn yn y dadansoddiad SWOT a gynhwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ac a adroddir yn llawn yn yr Adroddiad SWOT Rhanbarthol. Ar gyfer pob un o'r rhanbarthau, mae'r canlyniadau o ran sawl gwaith y dewiswyd cysylltiadau trawsffiniol gwahanol fel blaenoriaethau wedi'u dangos yn

Tabl 11:

Tabl 12 Blaenoriaethau Trawsffiniol Rhanbarthol

Cysylltiad	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru
Seilwaith ynni	10	8	17
Cyflogaeth / gweithle	8	9	13
Tai a chymunedau	5	2	6
Llafur / gweithwyr / sgiliau	10	13	15
Manwerthu / masnachol a hamdden	1	1	4
Gwasanaethau a chyfleusterau	3	6	2
Trafnidiaeth a theithio	16	17	26

Mae'r materion trawsffiniol allweddol ar gyfer pob rhanbarth yn cynnwys:

- a) Trafnidiaeth a theithio;
- b) Seilwaith ynni;
- c) Llafur / gweithwyr / sgiliau; a
- ch) Gweithleoedd / cyflogaeth.

6.2 Sbardunwyr allweddol

Yn ogystal â deall materion trawsffiniol pwysig, mae Llywodraeth Cymru eisiau deall unrhyw sbardunwyr allweddol a allai ddylanwadu ar ranbarthau'r FfDC. I gynorthwyo â hyn, mae Arup wedi ymgymryd â'r tasgau canlynol:

1. Amlygu sbardunwyr economaidd allweddol – trwy adolygu cynlluniau lleol a chynlluniau / strategaethau rhanbarthol (e.e. ardaloedd twf economaidd allweddol / gwaith trawsffiniol);
2. Amlygu prosiectau / cynigion seilwaith trawsffiniol allweddol – trwy adolygu cynlluniau / strategaethau cyhoeddedig (e.e. gwelliannau i gefnffyrdd a seilwaith trydan); a
3. Chyd-destun polisi – trwy adolygu'r cynlluniau lleol er mwyn amlygu a chrynhai unrhyw sbardunwyr / ymyriadau polisi trawsffiniol.

Crynhair isod yr ystyriaethau allweddol, a gyflwynir yn ôl ardal ofodol ac a ategir gan unrhyw ddarluniadau sydd ar gael.

6.2.1 Gogledd Cymru

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru (2015-2020) wedi cael ei gynhyrchu ar y cyd gan Gynghorau Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam. Mae gweledigaeth y Cynllun yn ymestyn i fod o fudd i bobl Gogledd-orllewin Lloegr.

Cyfeirir at amryw gysylltiadau â Lloegr, gan gynnwys pwysigrwydd Glannau Dyfrdwy fel marchnad sydd wedi'i lleoli'n strategol ar gyfer marchnadoedd ehangach yng Ngogledd-orllewin a Chanolbarth Lloegr. At hynny, mae Porthladd Mostyn yn darparu cysylltiadau cludo nwyddau yn agos at rwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd strategol Gogledd-orllewin Lloegr. Felly, cydnabyddir bod gwelliannau i gysylltiadau trawsffiniol wedi'u cynllunio at ddibenion cyflogaeth, twristiaeth a hamdden.

Nodir cysylltedd rheilffyrdd o ran y ffaith bod y rhwydwaith yng Ngogledd Cymru yn darparu cysylltiadau strategol â Gogledd-orllewin Lloegr, gan gynnwys ar gyfer cludo nwyddau. Dywedir bod angen buddsoddi mewn moderneiddio'r cysylltiadau rheilffyrdd hyn. Mae cyllid wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar ar gyfer adfer llinell Halton Curve a fydd yn cysylltu Halton, Swydd Gaer, a Gogledd Cymru am £10.4m. Yn ogystal, mae gwaith uwchraddio gwerth £44m i'r llinell reilffordd rhwng Wrecsam a Chaer wedi'i gynnig i leihau amser teithio rhwng Caergybi a Chaerdydd a chaniatáu i drên ychwanegol redeg bob dwy awr rhwng y ddwy orsaf, trwy Wrecsam.

At hynny, mae buddsoddiad yn cael ei geisio ar hyn o bryd ar gyfer trydaneiddio Llinell Arfordir Gogledd Cymru o Gaergybi i Crewe.


Ystyrir bod cysylltiadau priffyrdd trwy'r A483 yn strategol bwysig, gan gysylltu'r rhanbarth â Phowys a Swydd Gaer. Cydnabyddir bod lefelau cymudo'n uchel ar draws y ffin, yn enwedig i Swydd Gaer, Manceinion a Glannau Mersi. Mae mynediad at wasanaethau, gofal iechyd a meysydd awyr yn arwain at nifer fawr o symudiadau trawsffiniol hefyd.

Yn ystod cyfarfodydd â phwyslais penodol iddynt gyda rhanddeiliaid, un o'r mentrau allweddol sy'n cael eu datblygu a grybwyllwyd fel cysylltiad trawsffiniol strategol bwysig a fydd o fudd i Gogledd Cymru oedd y cynigion ar gyfer Metro Gogledd Cymru.

Mae Symud Gogledd Cymru Ymlaen: Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru (2017) yn cyflwyno'r weledigaeth ar gyfer trafndiaeth yng Ngogledd Cymru, gyda phwyslais ar hygyrchedd rhyngwladol. Mae'r Strategaeth yn nodi bod nifer o safleoedd cyflogaeth ar y ddwy ochr i'r ffin yn cael eu gwasanaethu'n wael gan drafndiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd, ac felly'n annog dibyniaeth ar geir preifat. Amlygwyd bod tagfeydd ac oedi yn broblem allweddol o ganlyniad i hyn. Mae'n esbonio ymhellach sut mae cyfleoedd cyflogaeth yn gyfyngedig ar hyn o bryd i'r rhai sy'n dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus i deithio. O ystyried y posibilrwydd ar gyfer cynnydd mewn swyddi o oddeutu 45,000-55,000 yn ystod yr 20 mlynedd nesaf o fewn yr ardal drawsffiniol, mae angen gwella systemau trafndiaeth gyhoeddus a'r rhwydwaith priffyrdd.

Amlinellir Gweledigaeth y Strategaeth yn Ffigur 15.

Ffigur 17 Gweledigaeth Symud Gogledd Cymru Ymlaen



6.2.2 Wrecsam

Mae Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam – Cynllun Adnewo 2013-2028 (2018) yn cydnabod pwysigrwydd economaidd cysylltiadau trawsffiniol. Cydnabyddir hefyd bod Wrecsam mewn lleoliad da i fanteisio ar gyfleoedd economaidd yng Nghymru ac yn Lloegr.

Mae'r cynllun yn datgan pwysigrwydd sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus yn cynnig dewis deniadol ac ymarferol ar gyfer teithio. Mae'n datgan bod dibyniaeth ar geir yn creu tagfeydd traffig ar gyffyrdd yr A483 â Lloegr (cyffordd yr A55 i'r gorllewin o Gaer, ac i'r de o'r Waun ar gylchfan Gledrid), ar gyffyrdd o'r A483 i Wrecsam (4, 5 a 6) ac o fewn tref Wrecsam ei hun.

6.2.3 Sir y Fflint

Mae Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir y Fflint 2000-2015 (2011) yn amlinellu cysylltiadau trafndiaeth strategol i gysylltu Gogledd Cymru a Lloegr, gan gynnwys yr A494/A550. Nodir bod y llwybrau hyn yn cludo cryn dipyn o draffig a bod llawer o wrthdrawiadau'n cael eu cofnodi. Mae'r Cynllun yn cynnwys cynlluniau i gynyddu capasiti a gwella diogelwch y rhwydwaith priffyrdd, gan gynnwys gwelliannau i Gyfnwidfa Ewloe yr A494/A55.

Nodir cysylltiadau trawsffiniol yn benodol hefyd o ran cyflogaeth a thai, gyda gorllewin Swydd Gaer a'r Wirral.

6.2.4 Glannau Dyfrdwy

Mae Cynllun Glannau Dyfrdwy yn amlinellu sut y gellir gwireddu'r dyheadau ar gyfer twf Gogledd Cymru ac ardal Mersi Dyfrdwy. Mae'r Cynllun yn annog gwell rhyngweithio trawsffiniol ac, fel y cyfryw, mae'n canolbwyntio ar feysydd polisi a rhyngweithiadau sy'n croesi ffin Cymru-Lloegr (yn seiliedig ar drafnidiaeth a chysylltedd yn bennaf).

Mae Ffigur 16 yn dangos cynigion trafndiaeth allweddol y Cynllun, ac mae Ffigur 17 yn amlinellu cynigion defnydd tir allweddol y Cynllun.


O ran trafndiaeth, nodwyd y cynlluniau canlynol:

- a) Mae llinellau rheilffordd y Gororau ac Arfordir Gogledd Cymru yn rhannu'r ardal yn ddwy. Mae gwella'r gwasanaethau sydd ar gael yn ogystal â buddsoddi yn y rhwydwaith yn hollbwysig i ddarparu rhwydwaith trafndiaeth integredig o ansawdd uchel. Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio'r llinell ar gyfer gwasanaethau metro i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn hollbwysig.
- b) Datblygu gorsaf newydd ym Mhareffordd Glannau Dyfrdwy i ddarparu cysylltiad rheilffordd i galon Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy. Bydd yr orsaf o bwysigrwydd strategol, gan wella hygyrchedd lleol i safleoedd cyflogaeth yn y Parc Diwydiannol a chyrchfannau hamdden, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru, yn ogystal â gwella mynediad at aneddiadau trawsffiniol fel Manceinion, Lerpwl a Chaer.
- c) Opsiwn 'Metro' rheilffordd gul ar gyfer Lein y Gororau – gan gysylltu safleoedd Parcio a Theithio mewn gorsafoedd lleol e.e. Penffordd a Swydd Gaer i Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.
- ch) Darparu cyfnewidfa newydd yn Garden City i gysylltu Gorsaf Pont Penarlâg, Datblygiad Porth y Gogledd, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a'r rhwydwaith bysiau craidd. Byddai'r cyfleuster o fudd i ffordd asgwrn cefn Porth y Gogledd hefyd.
- d) Datblygu cyfnewidfa newydd yng Ngorsaf Shotton i helpu i fynd i'r afael â chysylltedd o fewn y rhwydwaith rheilffordd presennol. Bydd Gwasanaeth Bws Gwennol mynych a dibynadwy yn cysylltu â'r rhwydwaith bysiau craidd ac yn darparu cysylltiadau cynaliadwy â'r llwybr beicio arfaethedig wedi'i uwchraddio ar hyd Coridor Glannau Dyfrdwy.
- dd) Yr A494/A55 Alinio Llwybr Priffordd Ewropeaidd – er mwyn gwella amser teithio i Ogledd Cymru ac oddi yno, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwelliannau strategol i'r seilwaith priffordd i gysylltu'r A494 â'r A55.
- e) Ymestyn a chysylltu'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd presennol i gysylltu Glannau Dyfrdwy, Caer a'r Wirral trwy goridorau sydd o fudd i fioamrywiaeth, sy'n gwella llwybrau teithio llesol ac sy'n cynyddu darpariaeth hamdden. Bydd y rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn defnyddio Afon Dyfrdwy fel asgwrn cefn allweddol trwy Lannau Dyfrdwy gan ffurfio adnodd hamdden hollbwysig, a bydd yn gwella cysylltiadau â Pharc Wepre a mannau gwyrdd eraill.


- f) Mae gwella amser teithio ac amllder gwasanaethau i ardaloedd fel Manceinion, Lerpwl a Chaer yn allweddol i wella cymudo trawsffiniol a lleihau'r defnydd o geir ar gyfer teithiau gwaith a hamdden.

Ystyrir bod cydweithredu trawsffiniol o ran y rhwydwaith sgiliau yn flaenoriaeth hefyd. Mae'r Cynllun yn bwriadu datblygu manifest o sgiliau trawsffiniol wedi'i seilio ar un asiantaeth yrfaedd i hyrwyddo llif sgiliau ac arbenigedd o ran ein marchnadoedd llafur a'r rhai sy'n astudio ac yn dysgu.

Ffigur 18 Cynigion Trafnidiaeth Cynllun Glannau Dyfrdwy



Ffigur 19 Cynigion Defnydd Tir Cynllun Glannau Dyfrdwy



6.2.5 Y Wirral

Mae Cynllun Twf y Wirral: Gweledigaeth 2020 yn amlygu meysydd lle y dylai Cyngor y Wirral gydweithredu â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i “gyflawni Wirral gwell”.

Nod y Cynllun yw sicrhau y bydd hygyrchedd i gyflogaeth yn cael ei wella, yn enwedig o ran mynediad at swyddi y tu allan i'r Fwrdeistref, a hynny yng Ngogledd Cymru yn arbennig.

6.2.6 Gorllewin Swydd Gaer a Chaer

Mae Cysylltu Pobl â Mannau Cyflogaeth, Addysg a Llesiant (2016) yn canolbwyntio ar gefnogi'r cyfleoedd cyflogaeth sylweddol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n dod i'r amlwg yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer. Nod y Strategaeth yw hwyluso gwell teithio trawsffiniol i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar fws, ar drên ac ar feic. Mae'r Strategaeth hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd Ystad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy, sy'n Ardal Fenter.

Mae Cynllun Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer: Helpu'r Fwrdeistref i Ffynnu yn cyflwyno gweledigaeth y Cyngor a deg blaenoriaeth ar gyfer 2016-2020. Mae'r Cynllun yn ceisio mwy o ddatganoli a chydweithredu ar dwf economaidd ar lefel is-ranbarthol. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Chynghorau Gogledd Cymru ar brosiectau ar y cyd ar gyfer twf busnes. Un o'r blaenoriaethau allweddol a amlygwyd yw manteisio i'r eithaf ar fuddion rheilffordd gyflym iawn.

Mae Strategaeth Trafnidiaeth Lleol Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer 2017-30 yn amlygu gwelliannau i gysylltiadau â Gogledd Cymru fel blaenoriaeth uchel. Ystyrir bod hygyrchedd trwy reilffyrdd yn bwysicaf oll e.e. trwy foderneiddio llinell arfordir Gogledd Cymru a HS2. Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol 2011 yn cyflwyno'r strategaeth drosfwaol ar gyfer gwella trafndiaeth leol dros gyfnod o bymtheng mlynedd, ac mae'r cynlluniau canlynol wedi cael eu nodi:

1. Cynlluniau i gludo teithwyr ar linell Halton Curve eto – bydd hyn yn gwella'r cysylltiad rheilffordd o Orllewin Swydd Gaer a Gogledd-ddwyrain Cymru i Lerpwl a'r maes awyr;
2. Cysylltiadau bws a thrên gwael o Orllewin Swydd Gaer a Gogledd-ddwyrain Cymru i'r maes awyr;
3. Gweithio gyda chwmnïau bysiau i wella gwasanaethau ar lwybrau trawsffiniol;
4. Problemau tagfeydd yn sgil cymudo trawsffiniol – annog mwy o deithiau trwy ddulliau mwy cynaliadwy; a
5. Gweithio gydag awdurdodau cyfagos i gynnal cysylltiadau beicio trawsffiniol.

Mae ymgyrch Growth Track 360 wedi cael ei lansio i sicrhau £1bn o welliannau rheilffyrdd, a fyddai'n trawsnewid economi ranbarthol Gogledd Cymru a Swydd Gaer ac yn darparu 70,000 o swyddi newydd dros 20 mlynedd. Mae'n cael ei harwain gan gynghrair drawsffiniol o arweinwyr busnes, gwleidyddol a sector cyhoeddus, ac mae'n ymgyrchu dros y canlynol:

- a) Trydaneiddio'r llinell o Crewe i Ogledd Cymru;
- b) Dyblu amllder trenau rhwng Llinell Arfordir Gogledd Cymru a Wrecsam i Fanceinion trwy Gaer;
- c) Buddsoddi mewn stoc dreigl newydd, fodern sydd ag offer gwell; a
- ch) Chreu gwasanaethau newydd rhwng Lerpwl a Maes Awyr Lerpwl i Ogledd Cymru a Wrecsam trwy Gaer (Halton Curve).

6.2.7 Dwyrain Swydd Gaer

Mae Cynllun Lleol Dwyrain Swydd Gaer – Strategaeth Cynllun Lleol (2010-2030) 2017 yn cyflwyno'r weledigaeth gyffredinol a'r strategaeth gynllunio ar gyfer datblygu o fewn Dwyrain Swydd Gaer. Mae'r Strategaeth yn amlygu'r angen i wella cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus trawsffiniol â'r holl ardaloedd Awdurdod Lleol amgylchynol.

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Dwyrain Swydd Gaer (2011-2026) yn cyflwyno cynllun strategol ar gyfer datblygu trafniadaeth o fewn Swydd Gaer dros gyfnod o bymtheng mlynedd. Mae'n amlygu'r polisiâu allweddol canlynol:

- a) Polisi S6: Trafnidiaeth Gyhoeddus (Prisiau a Thocynnau): Gweithio gyda gweithredwyr trafniadaeth gyhoeddus a phartneriaid trawsffiniol (e.e. GMPTE) i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu tocynnau, cardiau twristiaid/ymwelwyr a phecynnau aml-weithredwr, aml-foddol, trawsffiniol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu mentrau cerdyn deallus ac archwilio cyfleoedd i ymestyn ymarferoldeb cardiau deallus i gynnwys meysydd parcio.
- b) Polisi B1: Partneriaethau Strategol ar gyfer Twf Economaidd: Gweithio gydag awdurdodau cyfagos, sefydliadau rhanbarthol/is-ranbarthol priodol, gweithredwyr trafniadaeth gyhoeddus a darparwyr i wella cyfleoedd buddsoddi trawsffiniol a strategol ym maes trafniadaeth.
- c) Gweithio gyda'r Asiantaeth Briffyrdd i wella sut mae traffig yn cael ei reoli ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yn Nwyrain Swydd Gaer trwy gefnogi cynigion ar gyfer 'Rheoli Traffig yn Weithredol' a thrwy ddefnyddio ymagwedd bartneriaeth at ddatrys problemau diogelwch a thagfeydd ar gyffyrdd traffyrdd.
- ch) Cefnogi mentrau cenedlaethol i wella cysylltedd rheilffyrdd. Mae hyn yn cynnwys y cynllun gwella capasiti Hwb y Gogledd a rhwydwaith rheilffordd gyflym iawn i wasanaethu'r Gogledd-orllewin. Gweithio gyda'r Llywodraeth a hyrwyddwyr y cynllun i archwilio'r cyfleoedd i wasanaethau cyflym iawn alw ym mhrif orsafoedd Dwyrain Swydd Gaer. Hefyd, gweithio gyda Chymdeithas Awdurdodau Manceinion Fwyaf (AGMA) i gynnal astudiaethau dichonoldeb o gyfleoedd tram-trên yng ngogledd y Fwrdeistref, yn enwedig safleoedd Parcio a Theithio o'r rhwydwaith ffyrdd strategol i ganol y ddinas.

6.2.8 Canolbarth Cymru

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Canolbarth Cymru 2015 wedi cael ei baratoi ar y cyd gan Awdurdodau Lleol Canolbarth Cymru, sef Powys, Ceredigion a Gwynedd. Mae nifer o gyfeiriadau at faterion trawsffiniol yn y Cynllun, fel a ganlyn:

- a) Nodir bod cysylltiadau i Amwythig ac ymlaen i Birmingham yn gysylltiadau rheilffordd strategol bwysig yn rhanbarthol ar gyfer busnes, addysg a thwristiaeth;
- b) Mae cryn dipyn o gymudo allan rhwng Powys a Swydd Amwythig a Gorllewin Canolbarth Lloegr;
- c) Mae'n gyffredin teithio i feysydd awyr y tu allan i'r rhanbarth gan nad oes meysydd awyr sy'n cynnig gwasanaethau wedi'u hamserlennu yng Nghanolbarth Cymru (e.e. Birmingham, Manceinion, Lerpwl, Bryste).
- ch) Nodir mai cysylltiad yr A483 o Swydd Amwythig yw'r prif lwybr ar gyfer teithiau i mewn ac allan o'r rhanbarth. Cynigiwyd Ffordd Osgoi'r Drenewydd i wella'r cysylltiad strategol hwn, ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.
- d) Mae'r A44 yn gysylltiad dwyrain-gorllewin allweddol rhwng Swydd Henffordd ac Aberystwyth;
- dd) Cyfeirir at bwysigrwydd cysylltiadau trawsffiniol ar gyfer twristiaeth e.e. ar gyfer Clawdd Offa a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- e) Mae angen mwy o gydlynad o ran darparu trafndiaeth drawsffiniol a buddsoddi ynddi.

6.2.9 Powys

Mae Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026 (2018) yn cyflwyno'r polisiau ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mhowys hyd at 2026.

Mae Polisi TD3 yn datgan y bydd gwaith adfer yn cael ei gefnogi ar gyfer Camlas Trefaldwyn a Datblygiadau Cysylltiedig. Mae'n datgan bod angen gwaith mawr i ailgysylltu'r gamlas â rhan Swydd Amwythig a'i dychwelyd i gyflwr mordwyadwy ar draws ei hyd cyfan i Lociau Frankton, a fyddai'n ei chysylltu â Chamlas Llangollen yn Swydd Amwythig. Mae'r gwaith adfer yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

6.2.10 Swydd Amwythig

Mae Fframwaith Datblygu Lleol Swydd Amwythig: Strategaeth Graidd Fabwysiedig (2011) yn amlinellu'r polisiau defnydd tir yn Swydd Amwythig dros gyfnod y cynllun hyd at 2026. Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod trafndiaeth gyhoeddus drawsffiniol yn fater pwysig ac yn cyfeirio at y cyfleoedd canlynol:

- a) Cynigion ar gyfer buddsoddiad ychwanegol mewn gwelliannau i reolaeth a gwasanaethau rheilffyrdd a amlygwyd yn Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru. Cydnabyddir y bydd buddsoddiadau ar hyd y llinellau hyn yn arwain at welliant canlyniadol i wasanaethau rheilffyrdd o Amwythig.

- b) Buddsoddiad trawsffiniol arfaethedig Trafnidiaeth Cymru i wella'r A458 o Dal-y-bont yn y Trallwng i Wollaston Cross ar ffin Swydd Amwythig yn rhan o Flaenraglen Cefnffyrdd Cymru (a gydnabyddir yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol Swydd Amwythig hefyd).
- c) Gweithio gydag awdurdodau lleol cydffiniol lle mae angen cyfleoedd trawsffiniol ar aneddiadau sy'n cydffinio â Swydd Amwythig i fodloni eu hanghenion am ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, safleoedd o amgylch Burford o ran twf Tenbury Wells, safleoedd yn Swydd Amwythig o ran twf yn Nhrefcyclo gydffiniol, a safle gorsaf bŵer Ironbridge o ran cynigion ar gyfer Ironbridge a Telford. Byddai'r gweithgor is-ranbarthol: Cynghorau Swydd Amwythig, Swydd Henffordd, Telford a Wrekin a Phowys yn cyflawni hyn.
- ch) Mae adfer y gamlas o Gyffordd Frankton i fan yn agos i'r Drennewydd yn cael ei gydnabod yn brosiect Blaenoriaeth Un gan Ddyfrffyrdd Prydain. Mae hyn yn cynnwys 13km o gamlas ar ffin Cymru (5.3km yn Swydd Amwythig) y mae angen ei hadfer i gysylltu'r gamlas â Chanolbarth Cymru. Mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo.

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Swydd Amwythig – Strategaeth Cynllun Trafnidiaeth Lleol Dros Dro 2011-2026 yn amlinellu sut mae Cyngor Swydd Amwythig a'i bartneriaid yn bwriadu cynnal, rheoli a gwella'r ddarpariaeth drafnidiaeth. Mae'r Cynllun yn pwysleisio bod Amwythig yn ganolfan ddiwylliannol, gyflogaeth a manwerthu allweddol i Swydd Amwythig a Chanolbarth Cymru, gan felly ddangos pwysigrwydd teithio trawsffiniol i wasanaethau o'r fath.

Yn ogystal â hyn, cydnabyddir bod myfyrwyr yn teithio pellteroedd mawr i gyrraedd addysg ôl-16, a bod llawer yn teithio'n drawsffiniol. Nodir bod myfyrwyr ysgolion uwchradd a cholegau yn anafodlon ar ansawdd teithio ar fysiau. Mae Polisi C2 y Cynllun hefyd yn pwysleisio gwelliannau hanfodol i wasanaethau rheilffyrdd, gan ddweud y byddai'r Cynllun yn arbennig o awyddus i gefnogi gwasanaeth bob awr ar linell Aberystwyth i Amwythig, a phumed trên y dydd ar linell Calon Cymru.

6.2.11 Swydd Henffordd

Mae Strategaeth Graidd Cynllun Lleol Swydd Henffordd 2011-2031 yn darparu fframwaith i lywio datblygiad a newid yn Swydd Henffordd hyd at 2031.

Mae ei Strategaeth Graidd yn cydnabod sut mae'r sir yn cyflawni swyddogaeth strategol wrth hwyluso cysylltiadau trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr.

Yn arbennig, mae'r Strategaeth Graidd yn cyfeirio at y Strategaeth Lwybr Ddrafft – Adroddiad Tystiolaeth ar gyfer Canolbarth Lloegr i Gymru a Swydd Gaerloyw (yr Asiantaeth Briffyrdd, 2014), gan ddweud bod yr A49 trwy Henffordd yn dioddef problemau capasiti cyffyrdd, a ddylai gael eu blaenoriaethu.

6.2.12 Fforest y Ddena a Dyffryn Gwy

Mae Strategaeth Graidd Fforest y Ddena 2012 yn darparu fframwaith ar gyfer creu lle mwy cynaliadwy.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod dylanwadau trawsffiniol Caerdydd a Chasnewydd. Mae'r Strategaeth yn cynllunio sut i ddatrys materion masnach, trwy ddarparu mwy o le i'w ddatblygu er mwyn cadw/adfachu masnach a gollwyd o ganolfannau fel Trefynwy.

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Fforest y Ddena a Dyffryn Gwy 2015-20 yn dwyn ynghyd gweledigaeth strategol rhanddeiliaid allweddol o fewn ardal gyrchfan Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena. Nodir bod cydweithredu ar draws y sir ac ar draws y wlad yn bwysig i ddatblygu cyrchfan twristiaeth llwyddiannus.

Mae'r Cynllun yn datgan pwysigrwydd datblygu a chynnal momentwm, ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth a thwf aelodaeth Cymdeithas Dwristiaeth Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena, yn ogystal â datblygu gweithgarwch trawsffiniol. Esboniodd Cynllun Cyflawni Seilwaith Fforest y Ddena 2015 (Arup) sut mae pwysau yn sgil cymudo allan o'r Rhanbarth yn rhoi pwysau ar y seilwaith trafnidiaeth, yn enwedig: coridor yr A40 sy'n darparu'r prif gysylltiad â Chaerloyw; a'r A48 yn yr ardal o amgylch Tutshill, Sedbury a Chas-gwent.

Cydnabyddir y bydd cyllid Pwynt Pwyso yr Adran Drafnidiaeth yn galluogi rhywfaint o welliannau ar y Gylchfan uwchben yr A40, ond mae'n bosibl y bydd angen mwy o waith modelu i ddeall goblygiadau datblygiad cronol a diffinio blaenoriaethau buddsoddi mewn seilwaith. Mae gwella'r cyfleusterau yng Ngorsaf Reilffordd Lydney yn brosiect arall sy'n cael ei ddatblygu gan y Cyngor Dosbarth a allai helpu i sicrhau mwy o ddefnydd o wasanaethau rheilffyrdd a symudiad moddol oddi wrth deithio mewn ceir preifat.

6.2.13 Sir Fynwy

Mae Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Cyngor Sir Fynwy 2014 yn gosod y fframwaith ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy, gan gynnwys o ran datblygu a defnyddio tir, a gwarchod yr amgylchedd. Nodir bod ardal Glan Hafren o bwysigrwydd strategol ar gyfer cyflogaeth, a bod Bryste'n ganolfan gyflogaeth a gwasanaeth allweddol i breswylwyr Sir Fynwy.

6.2.14 Gorllewin Lloegr

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd 3 Gorllewin Lloegr (2011-2026) yn cwmpasu pedwar cyngor, sef Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Dinas Bryste, Gogledd Gwlad yr Haf a De Swydd Gaerloyw.

Mae'r Cynllun yn nodi graddau cymudo o Sir Fynwy a'r Cymoedd Dwyreiniol, ac yn cydnabod y cysylltiadau gwael o Gas-gwent a De Cymru. Mae'n ceisio gweithio gyda Chyngor Sir Fynwy, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill tuag at well gwasanaethau rheilffyrdd ar hyd y coridor.

Mae dileu Tollau Ail Groesfan Hafren yn newid allweddol i gyd-destun trafnidiaeth, cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth, sy'n caniatáu i bobl a nwyddau symud yn haws rhwng yr ardaloedd ac yn drawsffiniol.

6.2.15 Swydd Gaerloyw a De Swydd Gaerloyw

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Swydd Gaerloyw 2011-26 yn gosod y strategaeth hirdymor ar gyfer Swydd Gaerloyw hyd at 2031, gan anelu'n bennaf at

ddylanwadu ar sut mae pobl yn teithio, a chreu ‘rhwydwaith trafniadaeth cydnerth sy’n galluogi twf economaidd cynaliadwy trwy ddarparu dewisiadau teithio o ddrws i ddrws’. Mae camau gweithredu allweddol o ran trafniadaeth yn cynnwys cysylltu â Network Rail a chwmnïau gweithredu trenau i’w hannog i wella gwasanaethau rheilffyrdd rhwng Fforest y Ddena a Chaerdydd, a sicrhau cyllid i gyflwyno safle Parcio a Theithio newydd ger yr A40 a’r A48, i’r gorllewin o Afon Hafren.

Mae cynlluniau i drydaneiddio’r llinell rhwng Llundain a Chaerdydd, ond mae wedi cael ei thrydaneiddio cyn belled â Pharcffordd Bryste yn unig hyd yma.

6.3 Ystyriaethau allweddol

Dylai’r FfDC gydnabod cysylltiadau trawsffiniol fel themâu pwysig i bob un o ranbarthau Cymru. Mae meysydd polisi sy’n rhychwantu trafniadaeth, ynni a chyflogaeth, yn arbennig, yn flaenoriaethau amlwg i’r FfDC wrth ystyried materion ac effeithiau ar Ranbarthau cydffiniol yn Lloegr.

Mae patrymau clir o weithio trawsffiniol rhwng Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr, Canolbarth Cymru a Chanolbarth Lloegr, a De-ddwyrain Cymru a De-orllewin Lloegr. O fewn y rhanbarthau hyn, mae dogfennau polisi lleol a rhanbarthol yn pwysleisio pwysigrwydd materion a chysylltiadau trawsffiniol, sydd unwaith eto’n canolbwyntio ar drafniadaeth a chyflogaeth i raddau helaeth – fel yr ategwyd gan randdeiliaid a gyfeiriodd atynt fel blaenoriaethau i’r FfDC eu hystyried.

Fodd bynnag, mae ystod eang o fentrau a rhaglenni buddsoddi’n cael eu cynllunio neu eu cynnig yn lleol, a dylai’r FfDC gyfarwyddo Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) i adlewyrchu’r rhain ac ychwanegu atynt wrth ddatblygu polisi rhanbarthol.

Yr hyn sy’n bwysig i’r FfDC, fel yr hyrwyddir yn PPW 10, yw pan fo patrymau teithio neu ardaloedd marchnad dai sylweddol yn croesi ffiniau awdurdod lleol, fod gweithio ar y cyd yn cael ei annog. Mae PPW 10 yn awgrymu ei bod yn hanfodol monitro materion er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol a pharhaus o dir ar gael i ddarparu tai, er enghraifft. Dylai perygl llifogydd gael ei ystyried mewn modd cydweithrediadol hefyd, fel y gellir datblygu dealltwriaeth dda o oblygiadau datblygiad. Dylai’r FfDC fynd ymhellach a chydabod pwysigrwydd gweithio a chyfrannu at y cyd (dwyr o’r pum ffordd o weithio a hyrwyddir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015) i helpu i sicrhau bod materion trawsffiniol yn cael eu hamlygu a’u cryfhau, lle y bo’n bosibl, trwy ddatblygu polisi, gan gydnabod gwerth Rhanbarthau cydffiniol yn Lloegr i bobl ac economi Cymru.

7 Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio ddiben statudol i'r system gynllunio. Mae'n rhaid i unrhyw gorff statudol sy'n cyflawni swyddogaeth gynllunio arfer y swyddogaethau hynny yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru yn ceisio cyflawni “gweledigaeth o'r Gymru a garem” fel yr amlinellir yn y Ddeddf, sy'n gosod saith nod llesiant cenedlaethol a phum ffordd o weithio:

Ffigur 20 Nodau Llesiant a Ffyrrdd o Weithio



Mae PPW 10 yn gwneud cyfraniad sylweddol at wella pob agwedd ar lesiant, fel y diffinnir gan y nodau llesiant statudol. Mae'n ymgorffori ysbryd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy symud Cymru tuag at gymdeithas gydnerth, carbon isel, trwy ddarparu swyddi diogel sy'n talu'n dda, a thrwy greu amgylcheddau sydd wedi'u cysylltu'n dda i bawb yng Nghymru sy'n gwella ein bywydau, ein hiechyd a'n llesiant. Bydd yn helpu i baratoi ar gyfer poblogaeth fwy amrywiol a chynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio trwy gefnogi integreiddio gwasanaethau, ymsefydlu cydlyniant cymdeithasol a gwneud yn siŵr, er enghraifft, fod safleoedd tai newydd yn sicrhau cydraddoldeb, mynediad at y Gymraeg, ac yn annog ymdeimlad o berthyn.

